



TYSTYSGRIF ADDYSG GYFFREDINOL
GENERAL CERTIFICATE OF EDUCATION

TYSTYSGRIF GYFFREDINOL ADDYSG UWCHRADD
GENERAL CERTIFICATE OF SECONDARY EDUCATION

ADRODDIADAU ARHOLWYR

CYMRAEG AIL IAITH

HAF 2008

	Tudalen
TAG	3
TGAU	18
DUE	37

Gwybodaeth Ystadegol

TAG (UG/Uwch)

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys crynodeb o'r manylion am bob uned: y nifer a gofrestrwyd; y marc mwyaf sydd ar gael; y marc cymedrig a ennillwyd; ystodau graddau. *D.S. Mae'r rhain yn cyfeirio at 'farciau crai' a ddefnyddir yn yr asesiad dechreuol, yn hytrach na'r marciau unffurf a adroddir pan gyhoeddir y canlyniadau.*

TGAU

Gall yr Adroddiadau Arholwyr gyfeirio'n gyffredinol at ganlyniadau ystadegol. Darperir gwybodaeth ystadegol ar berfformiadau ymgeiswyr yn yr holl gydrannau arholiad (pa un ai ydynt wedi'u hasesu'n fewnol neu'n allanol) pan gyhoeddir y canlyniadau. Yn ogystal â'r marciau a ennillwyd gan ymgeiswyr unigol, gellir cael y wybodaeth ganlynol o'r allbrintiau hyn.

Ar gyfer pob cydran: y marc mwyaf, ffactor agregu, marc cymedrig a'r gwyrriad marciau safonol a ennillwyd gan yr *holl* ymgeiswyr a gofrestrwyd am yr arholiad.

Ar gyfer y pwnc neu'r opsiwn: y cofrestrriad cyfan a'r marc isaf sydd ei angen ar gyfer dyfarnu pob gradd.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Darperir gwybodaeth arall ar sail canolfan pan gyhoeddir y canlyniadau. Mae'r *Adroddiad Ystadegol* blynyddol (a gyhoeddir yn ail ran Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol yr holl arholiadau a weinyddir gan CBAC.

Tystysgrif Addysg Gyffredinol

Uwch Gyfrannol / Uwch

ADRODDIAD Y PRIF ARHOLWR

Prif Arholwr: Clive Rowlands, Uwch Ddarlithydd, Ysgol Addysg Caerdydd, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Uwch Arholwraig (CA2): Dr Gina Morgan, Uwch Ddarlithydd, Ysgol Addysg Caerdydd, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Sylwadau Cyffredinol

Mae'r niferoedd sy'n astudio'r manylebau Uwch Gyfrannol ac Uwch yn dal i gynyddu. Mae hyn yn dysteb i'r gwaith arbennig a wneir gan athrawon ail iaith ledled y wlad. Gwelir hyn ar ei orau adeg yr arholiadau llafar. Mae sylwadau'r arholwyr llafar adeg eu hymweliadau yn tystio i hyn. Mae'r canlyniadau yn y gwahanol fodiwlau'n galonogol a dymunir llongyfarch yn gynnes yr ymgeiswyr a'u hathrawon. Pwysleisir eto i ymgeiswyr bwysigrwydd darllen cwestiynau'r papurau arholiad yn ofalus iawn ynghyd â gofal wrth fynegi eu hunain yn ysgrifenedig. Fel y nodwyd o'r blaen mae meistroli techneg arholiad yn elfen holl bwysig.

Ystadegau Uned

Mae'r ystadegau canlynol yn cynnwys yr holl ymgeiswyr a gofrestrwyd am yr uned, pa un ai ydynt wedi 'cyfnwid' am ddyfarniad UG neu peidio. Tynnir sylw canolfannau at y ffaith y dylid ystyried yr ystadegau a restrir o fewn cyd-destun y papur hwn yn unig ac yn ddiamau bydd gwahaniaethau'n digwydd o flwyddyn i flwyddyn a hefyd rhwng pynciau yn yr un flwyddyn.

Uned	Cofrestrriad	Marc Mwyaf	Marc Cymedrig
CA1	834	40	28.1

Ystodau Graddau

A	32 – 40
B	26 – 31
C	20 – 25
D	14 – 19
E	8 – 13

D.S. Marciau crai ac nid marciau unffurf yw'r marciau a roddir uchod.

CA1 Y Ffilm a Llafaredd

Yn gyffredinol roedd y ddarpariaeth yn dda a'r croeso'n gynnes iawn yn y gwahanol ganolfannau. At ei gilydd roedd ystafelloedd addas wedi eu darparu ac roedd gan yr ymgeiswyr ystafelloedd cyfleus iddynt fedru paratoi ymlaen llaw.

A. *Y theatr/darlledu/ffilm*

(i) *Y theatr*

Bellach mae canolfannau wedi ceisio sicrhau bod ymgeiswyr yn cael cyfle i wyllo perfformiad theatrig ac roedd gan yr ymgeiswyr hyn ddigon o ddeunydd i'w drafod yn yr arholiad. Roedd rhai wedi gwyllo perfformiad o *Porth y Byddar*, *Y Pair* ac eraill wedi gweld perfformiad o'r sioe *Macsén*. Beth bynnag oedd y perfformiad a ddewiswyd, yn sicr gallai'r goreuon drafod y plot, yr actio a'r effeithiau sain, a hynny gyda manylder. Roedd y grwpiau gorau'n cydadweithio'n dda wrth adrodd hanes y plot ac yn mynegi barn gan gytuno neu anghytuno â safbwyntiau aelodau'r grŵp.

Ysywaeth, mae rhai ymgeiswyr yn dal heb gael y cyfle i weld cyflwyniad Cymraeg mewn theatr o unrhyw fath!

(ii) *Darlledu*

Braf nodi bod yr elfen hon, at ei gilydd, wedi gwella. Gallai'r goreuon sôn yn huawdl am raglenni teledu S4C yr oeddynt yn eu gwyllo. Soniai rhai am *Pobol y Cwm* a gallent roi crynodeb o'r plot cyfredol a thrafod y cymeriadau. Cafodd eraill flas ar gyfresi fel *Caerdydd* a'r *Teulu*, tra câi llawer bleser o wyllo rhaglenni chwaraeon megis *Sgorio* a'r *Clwb Rygbi*.

Ar Radio Cymru, y rhaglenni y soniwyd amdanynt amlaf oedd sioeau recordiau. Roedd rhai'n gwrandao'n gyson ar y newyddion. Beth bynnag yw hoffterau gwirioneddol y bobl ifanc hyn, roedd nifer sylweddol ohonynt wedi paratoi'n drylwyr ac yn medru trafod cynnwys y rhaglenni a mynegi barn amdanynt.

(iii) *Ffilm*

Roedd yr ymgeiswyr gorau'n medru manylu ar ffilmiau a welwyd ganddynt yn y dosbarth. Trafodent ffilmiau megis *Gadael Lenin*, a *Solomon a Gaenor* yn hyderus gan fanylu'n graff iawn ar elfennau'n ymwneud â chymeriadaeth a phlot. Medrent adrodd y stori a sôn am eu hoff olygfeydd.

Syndod o'r mwyaf oedd deall nad oedd pob ymgeisydd wedi cael y cyfle i weld ffilm Gymraeg!

B. *Hedd Wyn*

Roedd canran dda yn dangos gwybodaeth sicr o blot y ffilm. Gyda'r grwpiau gorau cafwyd cydadweithio o safon ragorol gyda'r goreuon yn disgleirio a dangos blaengaredd wrth symud y drafodaeth yn ei blaen. Roeddynt yn sylwi'n graff ar gyfraniadau aelodau eraill ac yn cyflwyno gwybodaeth berthnasol i'r drafodaeth.

Cafwyd trafodaethau diddorol yn ymwneud â ffrindiau a chariadon y prif gymeriad a nodwyd golygfeydd arwyddocaol i enghreifftio'r sylwadau a wnaed. Dangoswyd hefyd bod elfennau gwrthgyferbyniol yn y ffilm a gallai'r ymgeiswyr ddisgrifio enghreifftiau o wrthdaro rhwng y cymeriadau. Roedd llawer wrth eu bodd yn tynnu sylw at y defnydd o eironi yn y ffilm ac yn dangos ôl paratoi manwl wrth nodi golygfeydd i enghreifftio'u pwyntiau. Os rhywbeth roedd yr ymgeiswyr yn hapusach yn trafod enghreifftiau penodol o hiwmor neu symbolaeth nag oeddynt yn trafod themâu'r ffilm. Gallai'r goreuon drafod y modd mae'r ffilm yn dangos beth yw effaith rhyfel ar unigolion a chymdeithas a gallai nifer drafod y gwrthdaro rhwng dau ddiwylliant sy'n amlwg yn y ffilm.

C. *Pwnc sy'n deillio o'r ffilm*

Mae cyfle yma i ymdrin â nifer o agweddau megis:

- Safle'r ferch yn y gymdeithas a rôl y fam yn y ffilm;
- Y thema arwrol – y portread o Elis fel arwr;
- Pwysigrwydd diwylliant a'r bygythiadau i ddiwylliant;
- Effaith rhyfel – chwalu a difetha neu amddiffyn rhyddid.

Mae'r ymateb i'r elfen hon o'r arholiad yn amrywio'n fawr. Os rhywbeth hon yw'r adran sy'n cael ei hesgeuluso fwyaf. Tybir weithiau bod rhai ymgeiswyr yn teimlo eu bod wedi bodloni'r arholwr os gallant wneud pwynt neu ddau gweddol gyffredinol. Awgrymir y dylai'r elfen hon o'r arholiad gael gymaint o sylw â'r elfennau eraill wrth fynd ati i baratoi ar gyfer yr arholiad.

Sylwadau Cyffredinol

Roedd yr ymgeiswyr gorau yn amlygu llawer o'r nodweddion canlynol:

- ymateb i'w gilydd yn hytrach na siarad fesul un;
- gwrando ar ei gilydd;
- ymateb i'r anghyfarwydd;
- defnyddio iaith gyfoethog a chystrawennau cymhleth;
- gallu trafod yn effeithiol ymhob rhan o'r arholiad.

Yr ymgeiswyr gwannaf yn amlygu rhai/llawer o'r nodweddion canlynol:

- siarad yn hytrach na thrafod – dau/tri unigolyn yn dweud rhywbeth yn ei dro yn hytrach na grŵp yn siarad â'i gilydd.
- dim llawer o wrando ar ei gilydd;
- ymateb i'r arholwr yn hytrach nag ymateb i'w gilydd;
- heb allu ymateb yn estynedig;
- methu â thrafod pwnc yn codi o'r ffilm yn ddigon effeithiol;
- ynganu gwan, anodd ei ddeall ar brydiau.

CA2 Gwaith Cwrs Ysgrifenedig

Ystadegau Uned

Mae'r ystadegau canlynol yn cynnwys yr holl ymgeiswyr a gofrestrwyd am yr uned, pa un ai ydynt wedi 'cyfnewid' am ddyfarniad UG neu peidio. Tynnir sylw canolfannau at y ffaith y dylid ystyried yr ystadegau a restrir o fewn cyd-destun y papur hwn yn unig ac yn ddiamau bydd gwahaniaethau'n digwydd o flwyddyn i flwyddyn a hefyd rhwng pynciau yn yr un flwyddyn.

Uned	Cofrestrriad	Marc Mwyaf	Marc Cymedrig
CA2	912	40	27.3

Ystodau Graddau

A	32 – 40
B	26 – 31
C	20 – 25
D	14 – 19
E	8 – 13

D.S. Marciau crai ac nid marciau unffurf yw'r marciau a roddir uchod.

Cyffredinol: Cyflawnwyd meini prawf CA2 gan fwyafrif llethol yr ymgeiswyr. Mae'n hollol amlwg bod yr athrawon yn cynnig arweiniad a chynghor teg i'r ymgeiswyr o ran dewis testunau addas ac yna ffurfiau priodol ar y themâu dan sylw. Eto eleni roedd yr ymgeiswyr yn datblygu eu sgiliau sylfaenol wrth gyflwyno'r tasgau: sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu; datrys problemau; cyd-weithio ag eraill ac ymwybyddiaeth o wella eu gwaith eu hunain. Cynigiodd nifer o ganolfannau sylwadau manwl iawn nid yn unig ar ansawdd y gwaith ond hefyd ar gefndir y tasgau ac unrhyw sbardun a ddefnyddiwyd yn y dosbarth. Mae hyn yn arfer dda yr hoffem ei gweld yn cael ei mabwysiadu gan ganolfannau eraill.

Testunau

Dewisiwyd tasgau priodol gan bron pob ymgeisydd eleni. Gwobrwywyd arddull bersonol a chafwyd gogwydd Gymreig bendant i bron bob ffolio. Cafwyd nifer o ffolios amrywiol ac uchelgeisiol tu hwnt eleni fu'n ymdrin â phynciau diddorol a gwreiddiol. Braff oedd gweld ymgeiswyr yn dewis themâu perthnasol iawn oedd yn apelio atynt – ymchwil hanesyddol ar aelodau'r teulu yn y rhyfel byd 1af, gwaith ar fwyd organig lleol, cyfres deledu Dr Who, yn ogystal a'r pecynnau ar bynciau llosg cyfredol fel problemau'n wynebu pobl ifainc heddiw, pwysau ffasiwn ar ferched ifainc ac yn y blaen. Mae'r pynciau traddodiadol fel yr Ardal, byd Cerdd neu Chwaraeon dal yn boblogaidd mewn sawl canolfan, ond gwelwyd ymgeiswyr yn ymdrechu i gynhyrchu eitemau digon difyr i sichau gwaith gwreiddiol, ffres eu hapel. Mae'n bwysig bod diddordebau personol yr ymgeiswyr yn cael eu hadlewyrchu yn eu dewisiadau.

Strwythur a chynnwys

Roedd y ffolios bron yn ddieithriad yn cynnwys o leiaf pedair o'r ffurfiau gosod, gan gynnwys darn estynedig sylweddol. Roedd bron bob cywaith hefyd yn cynnwys ysgrifennu ar arddulliau gwahanol a'r gallu hefyd i amrywio arddull yn ôl pwrpas, ffurf, cywair a chynulleidfa. Roedd llai o enghreifftiau eleni o waith oedd yn seiliedig ar bynciau a astudiwyd yn CA1 neu CA3. Fel y nodwyd llynedd, ni ellir gwobrwyo darnau o waith felly fel rhan o CA2, ac ni ddylai'r ymgeiswyr gyflwyno dadansoddiadau barddonol ar gerddi CA3 na chyflwyno sgrïptiau'n trafod y ffilm Hedd Wyn. Hefyd, fel llynedd, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cynwys **1 darn estynedig** ym mhob ffolio, a sicrhau bod y darnau eraill hefyd yn ddigon estynedig a safonol eu hyd. Roedd rhai canolfannau'n cyflwyno pecynnau'n cynnwys cyfres o eitemau byrion **heb un darn estynedig amlwg**, a rhaid hyfforddi'r ymgeiswyr i ddewis a dethol eu darnau'n ofalus.

Roedd strwythur addas i'r mwyafrif helaeth o ffolios eleni. Mae bron bob canolfan yn hyfforddi'r ymgeiswyr i gynnwys tudalen gynnwys, cyflwyniad, diweddglô a llyfryddiaeth yn eu gwaith. Fel llynedd, gwelwyd nifer o ymgeiswyr yn cynnig gwerthfawrogiad o'u gwaith eu hunain – arfer dda o ran datblygu sgiliau hunan-arfarnu ar gyfer y dyfodol.

Iaith a mynegiant

Fel y disgwylir, roedd iaith y goreuon i'w chanmol ym mhob ffordd; mynegiant clir, hyderus, pwrpasol ac iaith gywir, fywiog. Ymhlith y graddau canolig hefyd cafwyd iaith glir ac eitha cywir a naturiol. Roedd ymgeiswyr ar y graddau is yn dal i arddangos sgiliau cyfathrebu boddhaol ac mae hyn i'w ganmol. Llai o enghreifftiau a gafwyd eleni lle bu ymgeiswyr yn ceisio cyfieithu'n uniongyrchol o'r Saesneg, arfer sydd yn amharu ar safon y darn.

Asesu a gweinyddu

Cafwyd gweinyddu o safon uchel iawn gan bron bob canolfan. Gwerthfawrogwyd sylwadau pwrpasol, craff athrawon ar y gwaith gan gynnig arweiniad clir i'r safonwr ar ffurflenni CA2 (ii). Roedd bron pob ymgeisydd wedi arwyddo ffurflen CA2(i) eleni. Roedd marciau'r canolfannau'n agos iawn ati, ond weithiau gwelwyd marciau eitha hael gan rai canolfannau - tuedd i'w ail-ystyried ar ôl darllen adroddiad a sylwadau'r safonwr.

Yn olaf, hoffem ddiolch i'r ymgeiswyr a llongyfarch yr adrannau am eu hymdrechion amlwg a'u gwaith caled. Mae'n bleser darllen cymaint o waith diddorol, gwreiddiol sydd yn sicr yn rhoi cyfle i'r plant ymchwilio a defnyddio eu Cymraeg mewn ffordd sydd yn bersonol iddynt hwy a'u bywydau nhw heddiw. Edrychwn ymlaen nawr at ddatblygiadau yn CA2 y flwyddyn nesa, gyda'r darn dan amodau i'w ychwanegu at y cyweithiau.

CA3 Defnyddio'r Iaith a Barddoniaeth (Arholiad Ysgrifenedig)

Ystadegau Uned

Mae'r ystadegau canlynol yn cynnwys yr holl ymgeiswyr a gofrestrwyd am yr uned, pa un ai ydynt wedi 'cyfnewid' am ddyfarniad UG neu peidio. Tynnir sylw canolfannau at y ffaith y dylid ystyried yr ystadegau a restrir o fewn cyd-destun y papur hwn yn unig ac yn ddiamau bydd gwahaniaethau'n digwydd o flwyddyn i flwyddyn a hefyd rhwng pynciau yn yr un flwyddyn.

Uned	Cofrestrriad	Marc Mwyaf	Marc Cymedrig
CA3	863	120	45.5

Ystodau Graddau

A	83 – 120
B	71 – 82
C	58 – 70
D	46 – 57
E	33 – 45

D.S. Marciau crai ac nid marciau unffurf yw'r marciau a roddir uchod.

Adran A

Cwestiwn 1

Cafwyd atebion da gan sawl ymgeisydd. Ar yr un pryd roedd gwallau iaith syml yn gostwng marc nifer. Pwysleisir eto y dylid ysgrifennu **un frawddeg** yn unig.

Yn benodol cafwyd anhawster gyda'r canlynol:

- Nifer sylweddol yn rhoi *yn* traethiadol o flaen *ar fy mhen fy hun* ac *ar bigau'r drain*. Fel arfer y camgymeriad oedd *Rydw i'n ar fy mhen fy hun*.
- Rhai'n camgymeryd y rhagenw, er enghraifft, *Roedd David ar fy mhen fy hun*.
- *Gwneud ei gorau glas* - y camgymeriad amlycaf oedd camgymeryd y rhagenw a defnyddio'r rhagenw gwrywaidd.
- *Rhoi'r gorau i* – nifer yn meddwl mai *roi o'i gorau* oedd ystyr y briod-ddull.
- *Ffon* – nifer heb lwyddo i ysgrifennu brawddeg gan ddefnyddio'r gair hwn yn gywir.

Cwestiwn 2

Yn gyffredinol cafwyd atebion da i'r cwestiwn hwn er mai anaml y cafwyd marciau llawn.

- Camgymeriad cyffredin iawn oedd camsillafu *iddyn* yn y cwestiwn cyntaf (*idden/iddin*).
- Mae'n syndod gymaint o ymgeiswyr oedd wedi methu cywiro'r ail frawddeg (*a'r ac ar* yn gynigion arferol).
- Nifer yn cael trafferth gyda (*d*) ac yn cynnig *Dydw i ddim* yn lle *Doeddwn i ddim*.
- Roedd (*dd*) wedi achosi trafferth i rai ond yn gyffredinol doedd hon ddim yn frawddeg anodd i'w chywiro.
- Llwyddodd y rhan fwyaf i gywiro brawddegau (*c*), (*ch*), (*e*), (*ff*) a (*g*).

Cwestiwn 3

Nid oedd y cwestiwn hwn mor llwyddiannus eleni ac y bu yn y gorffennol. Hynny yw, yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr yn llwyddo i ennill marciau da ond nid oedd gymaint yn ennill marciau llawn. Y camgymeriadau amlycaf oedd cynnig *buoedd* neu *buesodd* yn hytrach na *buodd hi, ymunes hi* yn lle *ymunodd hi*, rhoi *e* yn y ferf, er enghraifft, *astudioedd hi, priodoedd hi* ag ati.

Adran B

Rhaid canmol gwaith y goreuon. Cafwyd ambell sgript da iawn.

Cwestiwn (a)

Yn gyffredinol roedd yr atebion yn gymysglyd o ran safon. Roedd y rhan fwyaf wedi llwyddo i adrodd ychydig o'r cynnwys ond cafwyd sawl ateb anghyflawn. Anwybyddwyd y cwpledi olaf gan sawl un. Roedd eraill wedi manylu'n ormodol ar gefndir y gerdd a chefndir y bardd yn hytrach na chanolbwyntio ar y cynnwys. Tueddai'r gweiniaid i gymysgu rhwng cynnwys ac arddull.

Cwestiwn (b)

Cafwyd cynigion da i'r ail ran gan sawl ymgeisydd. Roedd y goreuon yn amlwg wedi dysgu'r gwaith yn drylwyr ac yn ei ddeall. Trafodwyd agweddau megis prif nodweddion y mesur, trefn odl, hyd y llinellau / brawddegau, delweddau, cyflythreniad, ieithwedd ag ati wrth roi dyfyniadau byr i brofi dealltwriaeth o'r term dan sylw ac effaith y gwahanol dechnegau.

Diffyg cywirdeb wrth fynegi eu hunain oedd un o nodweddion amlycaf y gweiniaid ynghyd â'r gallu i gynllunio eu gwaith.

Cwestiwn (c)

Ychydig yn siomedig oedd y rhan hon yn gyffredinol. Serch hynny, cafwyd rhai atebion ardderchog a'r goreuon yn ymateb yn fanwl i'r thema gan fynegi safbwyntiau diddorol a gwreiddiol. Tueddai nifer ailwampio'r hyn a drafodwyd yn flaenorol heb ymateb yn glir i'r thema.

CA4 Y Ddrama a Llafaredd

Ystadegau Uned

Mae'r ystadegau canlynol yn cynnwys yr holl ymgeiswyr a gofrestrwyd am yr uned, pa un ai ydynt wedi 'cyfnewid' am ddyfarniad UG neu peidio. Tynnir sylw canolfannau at y ffaith y dylid ystyried yr ystadegau a restrir o fewn cyd-destun y papur hwn yn unig ac yn ddiamau bydd gwahaniaethau'n digwydd o flwyddyn i flwyddyn a hefyd rhwng pynciau yn yr un flwyddyn.

Uned	Cofrestrriad	Marc Mwyaf	Marc Cymedrig
CA4	572	35	26.2

Ystodau Graddau

A	28 – 35
B	22 – 27
C	17 – 21
D	12 – 16
E	7 – 11

D.S. Marciau crai ac nid marciau unffurf yw'r marciau a roddir uchod.

At ei gilydd mae'r ymgeiswyr yn dangos cryn dipyn o aeddfedrwydd a pharodrwydd i ymestyn trafodaethau. Roedd y goreuon wedi paratoi'n drylwyr iawn ac yn medru croesgyfeirio at wahanol agweddau a phynciau a astudiwyd ganddynt yn ystod y cwrs. Roeddynt yn arddangos gwybodaeth fanwl ac eang o'r pwnc ac yn medru cyfleu syniadau craff iawn. Roeddynt yn dangos hyder wrth siarad, ac yn medru datblygu eu syniadau'n drefnus a phwrpasol. Roedd eu hyder yn eu galluogi i gydadweithio'n dda ag aelodau eraill y grŵp gan ymateb yn ddeallus i sylwadau unigolion.

A. Y diwylliant cyfoes amlgyfrwng

- *Y theatr*

Roedd yr ymgeiswyr i gyd bron wedi ymweld â theatr a gwyllo perfformiad dramatig. Medrent ddisgrifio'r hyn a welsant yn fanwl a threiddgar. Gallai'r goreuon gymharu'n graff iawn y gwahanol gynrychiadau a welwyd. Rhoddodd y sioe *Macsén* gyfle i'r ymgeiswyr drafod y plot a chymeriadaeth yn ogystal â'r effeithiau sain a cherddoriaeth.

- *Darlledu*

Gallai'r goreuon gyfeirio'n benodol at raglenni a wylwyd ganddynt ar S4C. Roedd y gyfres *Y Teulu* wedi ennyn diddordeb llawer a medrent fanylu ar y plot a'r cymeriadau. Ymhlith rhaglenni teledu eraill a drafodwyd oedd y ddrama-gyfres *Caerdydd, Sgorio, Y Clwb Rygbi, Jonathan a'r Newyddion*. Ymhlith rhaglenni Radio Cymru gwrandawyd ar sioeau recordiau yn ogystal â'r newyddion yn y bore.

- *Ffilm*

Roedd y mwyafrif yn medru sôn am ffilmiau a wylwyd ganddynt - a hynny bron yn ddieithriad yn y dosbarth Cymraeg. Cafwyd disgrifiadau manwl o *Solomon a Gaenor*, *Gadael Lenin a Nel*. Roedd llawer o'r ymgeiswyr yn medru trafod eu hoff ffilm yn gryno a deallus. Yn aml gwelwyd cydweithio da wrth i wahanol aelodau o'r grŵp gynnig gwybodaeth yn eu tro.

- *Newyddiaduraeth Gymraeg / Cylchgronau / Papurau bro*

Roedd bron pob ymgeisydd yn medru sôn am erthygl neu stori a ddarllenwyd ganddynt ac roedd rhai yn medru trafod yn fanwl a sôn am erthyglau penodol a oedd wedi gadael argraff arnynt. Cafodd *Y Cymro* gryn gefnogaeth yn ogystal â *Golwg*. Mae rhai yn darllen *Lingo Newydd* sydd â chôd glas, gwyrdd a choch yn graddoli anhawster yr iaith yn yr erthyglau gan gynorthwyo darllenwyr i ddewis deunydd sydd at eu dant.

A. Trafod drama – Siwan

Cafwyd enghreifftiau rhagorol o gydadweithio wrth i aelodau o grwpiau drafod plot y ddrama. Roedd yr ymgeiswyr bron i gyd yn medru adrodd stori'r ddrama yn foddhaol ac roedd yr ymgeiswyr gorau'n manylu'n arbennig o dda gan ddefnyddio dyfyniadau addas. Yr un modd gyda chymeriadau'r ddrama, gallai'r ymgeiswyr bron i gyd drafod prif nodweddion pob cymeriad. Gwelwyd ôl yr un manylder paratoi wrth i'r trafodaethau ddatblygu i sôn am y symbolaeth a'r eironi sy'n chwarae rhan bwysig yn effeithiolrwydd a thechneg y ddrama. Eto gallai'r ymgeiswyr enghreifftio'u pwyntiau gan gyfeirio'n benodol at olygfeydd, gyda'r goreuon yn dyfynnu'n helaeth o'r ddrama.

Wrth drafod y themâu, dangosodd yr ymgeiswyr eu bod yn medru trafod y modd y mae'r awdur yn ymdrin â thema *serch a chariad* yn y ddrama. Cafwyd ymdriniaethau diddorol dros ben ar y pwnc yma a dangosodd nifer iddynt ddeall hanfod y drydedd act gyda'r sylw'n troi at gymodi rhwng gŵr a gwraig, Tywysog a Thywysoges. Gallai'r ymgeiswyr uniaethu'n rhyfeddol o dda gyda'r cymeriadau, yn enwedig y cymeriad *Siwan* ac roedd y goreuon yn medru ymhelaethu ar ing a siom a syrffed y cymeriad yn ogystal â'i gwytnwch a'i dewrder stoicaidd. Yn yr un modd dadansodwyd cymhellion *Gwilym a Llywelyn* yn ddigon medrus. Gall yr ymgeiswyr ymfalchïo yn y ffaith iddynt ddeall a llwyddo i drafod y ddrama mor ddeheuig.

B. Asesiad Synoptig

Dyma ran bwysig o'r arholiad llafar ac mae cyfanswm y marciau a ddyfernir am yr adran yn adlewyrchu hynny. Gan ystyried hynny mae'n rhyfedd na welir ôl yr un gofal a manylder wrth baratoi yn dod i'r amlwg yn yr adran hon ag a welir yn yr adrannau eraill. Ni welwyd yr un hyder wrth gydadweithio ac ymateb i sylwadau cyd-ymgeiswyr o fewn y grwpiau.

Tuedda sawl canolfan i gymryd *rôl y ferch* fel pwnc trafod. Eto i gyd nid yw'r paratoi ar y testun yn aml yn ddigon trwyadl, ac nid yw'r ymgeiswyr yn llwyddo i argyhoeddi eu bod yn gwybod yn hollol beth sy'n ofynnol iddynt ei gyflawni yn y rhan hon o'r arholiad. Mae cyfle da iawn i arddangos medrau cydadweithio a blaengaredd yn yr adran hon ac awgrymir y gellid treulio mwy o amser yn paratoi ar ei chyfer. Yn ogystal â thrafod *rôl y ferch* cafwyd ymdriniaethau ag elfennau eraill megis *gwladgarwch* - pwnc sy'n amlwg iawn yn y testunau a astudiwyd gan yr ymgeiswyr.

Yn cyffwrdd â hyn hefyd, soniwyd am *ddyletswydd* a *chyfrifoldeb* tuag at bobl a gwlad a chenedl - pynciau amlwg yn y testunau a astudiwyd ganddynt a phynciau perthnasol inni heddiw. Pynciau eraill y cyfeiriwyd atynt oedd *godineb*, a *hunanoldeb* a *rhyddid i ddewis llwybr mewn bywyd* a llwyddwyd yn fedrus i gyfeirio at *Siwan*, *Hedd Wyn* yn ogystal â rhai o storïau byrion Mihangel Morgan. Mae'r ymresymu dargyfeiriol yma'n gyfle rhagorol i'r goreuon ddangos eu medr, ond mae'n bwysig pwysleisio y gellir trwy baratoi manwl, godi safon pob ymgeisydd yn yr adran hon o'r arholiad.

Fel y nodwyd yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y goreuon i'w canmol yn fawr a phob clod i'w hathrawon ymroddgar am eu paratoi cystal. Dyma nodweddion y goreuon:

- y paratoi'n drylwyr ac o ganlyniad yr ymgeiswyr yn perfformio'n dda ac yn gysurus wrth gael eu holi;
- sylw digonol yn cael ei roi i'r gwahanol adrannau a'r elfen synoptig yn rhan naturiol o'r drafodaeth;
- rhyngweithio effeithiol a'r ymgeiswyr yn gallu cynnal y drafodaeth yn naturiol;
- dyfynnu'n bwrpasol ac yn gywir;
- brwdfrydedd am yr iaith a hynny'n cael ei adlewyrchu yn y trafod;
- er mai dysgu ar y cof oedd rhai wedi ei wneud, medru ymateb i gwestiwn neu ddau ar draws y llif;
- defnyddio dywediadau sy'n ychwanegu at naturioldeb y drafodaeth.

Nodweddion y gweiniaid:

- methu â gwrando'n ddigonol ar ffurf cwestiwn er mwyn ateb yn gywir;
- nifer wedi bod yn y theatr ond yn methu â manylu ar yr ymweliad;
- adrodd ar y cof heb ddeall ystyr yr hyn oedd yn cael ei lefaru;
- diffyg defnydd o enghreifftiau o'r ffilm a'r ddrama i gadarnhau sylwadau;
- camddefnyddio'r cymal enwol (*bod mae* glywir yn amlach na pheidio);
- camddefnyddio arddodiaid ar ôl berf er enghraifft, *siarad i*, *dweud i*.

CA5 Y Stori Fer a Thrawsieithu

Ystadegau Uned

Mae'r ystadegau canlynol yn cynnwys yr holl ymgeiswyr a gofrestrwyd am yr uned, pa un ai ydynt wedi 'cyfnewid' am ddyfarniad UG neu peidio. Tynnir sylw canolfannau at y ffaith y dylid ystyried yr ystadegau a restrir o fewn cyd-destun y papur hwn yn unig ac yn ddiamau bydd gwahaniaethau'n digwydd o flwyddyn i flwyddyn a hefyd rhwng pynciau yn yr un flwyddyn.

Uned	Cofrestrriad	Marc Mwyaf	Marc Cymedrig
CA5	575	100	43.4

Ystodau Graddau

A	73 – 100
B	61 – 72
C	49 – 60
D	37 – 48
E	25 – 36

D.S. Marciau crai ac nid marciau unffurf yw'r marciau a roddir uchod.

Cwestiwn 1(i)

Llwyddodd y mwyafrif i groniclo hanes Neli. Tueddid weithiau i orfanylu ar berthynas Lois a Megan y ferch sy'n adrodd y stori, yn lle canolbwyntio ar ofynion y cwestiwn sef ymdrin yn benodol â hanes yr hen wraig. Fel gyda llawer o storïau'r awdur, ceir tro annisgwyl yng nghynffon y stori, a disgwyliad i'r ymgeiswyr ddisgrifio ymddangosiad y mab, Huw yn ogystal â'r dadleniad fod bagiau Neli yn llawn arian. Roedd yr atebion gorau'n llwyddo i groniclo'r prif ddigwyddiadau ac ar yr un pryd, ddadansoddi cymhellion y cymeriadau a nodi ambell thema berthnasol. Defnyddiodd sawl un ddyfyniadau addas wrth adrodd hanes y prif gymeriad a chawsant eu gwobrwyo am eu trylwyrdd.

Cwestiwn 1(ii)

At ei gilydd mae safon yr atebion i'r cwestiwn hwn yn gwella o flwyddyn i flwyddyn ac mae'r ymgeiswyr yn arddangos llawer mwy o hyder i drafod y nodweddion arddull a berthyn i'r dyfyniad penodol ar y papur arholiad. Braff cael eu dehongliad personol o'r nodweddion hynny wrth iddynt nodi'r technegau gan gyfeirio at esiamplau penodol o'r darn gosod. Mae'n bwysig i'r ymgeiswyr ddeall yr egwyddor fod yn rhaid cyflwyno tystiolaeth o'r darn wrth drafod pob nodwedd arddull. Roedd cyfle yn y darn eleni i sôn am y cyfuniad o arddull naratif ac arddull sgwrsio. Soniodd amryw am ddawn yr awdur i lunio sefyllfaoedd a'r defnydd effeithiol o ferfau cryno trydydd person amser gorffennol i ddisgrifio symudiadau'r gweinydd – *Sleifiodd y gweinydd.... a Llithrodd y gweinydd i ffwrdd*. Roedd y defnydd o ddeialog yn y darn yn rhoi cyfle i sôn am y modd y defnyddia'r awdur sgwrs i ddadlennu natur y cymeriadau, a soniodd amryw am y modd y mae'r ddeialog yn dangos y gwrthgyferbyniad rhwng Lois a Megan. Trafodwyd y defnydd o gyweiriau iaith amrywiol yn y darn a thynnwyd sylw at y defnydd o dafodiaith gan ddyfynnu'n bwrpasol. Y gwendid amlycaf yn y cwestiwn hwn yw trafod y cynnwys yn gyffredinol yn hytrach na thrafod nodweddion penodol yr arddull.

Cwestiwn 1(iii)

Gyda llawer iawn o ymgeiswyr, hwn yw'r cwestiwn sy'n peri mwyaf o anhawster. Mae'r pwyslais ar allu'r ymgeiswyr i ysgrifennu'n bersonol ac ar y gallu i ddefnyddio iaith yn y cywair priodol. Mae cywirdeb iaith hefyd yn bwysig ac mae'n amlwg fod llawer o ymgeiswyr yn cael trafferth gyda'r adran hon am nad yw eu hadnoddau ieithyddol yn ddigon datblygedig. Mae ansicrwydd ieithyddol yn eu rhwystro rhag mynegi eu hunain yn hyderus. Yn rhy aml, cymysgir amserau'r ferf o fewn yr un frawddeg, er enghraifft, *Es i i weld beth sy'n bod.....* a cheir ansicrwydd wrth ddynodi meddiant. Gwelir dylanwad y gystrawen Saesneg yn aml mewn enghreifftiau megis *Aethon ni siopa/Aethon ni merlota* a chymysgir ffurfiau unigol a lluosog *plentyn/plant* a *bachgen/bechgyn*. Roedd y ffurf oddefol *cael fy siomi* yn achosi anhawster i nifer o ymgeiswyr ac yn aml cafwyd atebion yn cynnwys *roeddwn i'n siomi* a phethau cyffelyb. Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr sôn am brofiad a gawsant rywbryd yn y gorffennol, felly mae'n rhaid iddynt sicrhau bod ganddynt afael gadarn ar amser gorffennol ac amser amherffaith y ferf. I godi safon y mynegiant yn gyffredinol, dylid sicrhau bod defnydd cywir yn cael ei wneud o ferfau, gan roi sylw arbennig i ferfau sy'n mynych ddirgwydd, er enghraifft, *mynd, dod a chael*.

Cwestiwn 2

Roedd ymateb yr ymgeiswyr i'r dasg ar y cyfan yn foddhaol iawn. Roedd y mwyafrif yn medru llunio llythyr yn ymateb i'r erthygl a oedd yn sôn am ymgyrch i atal creulondeb i blant. Roedd y llythyrau wedi eu cynllunio'n drefnus gyda pharagraffau agoriadol yn cyflwyno'r pwnc, cyn symud ymlaen i ymhelaethu a chynnig barn bersonol. Weithiau cafwyd enghreifftiau o ymgeiswyr yn glynu'n rhy agos at yr erthygl Saesneg gan ddibynnu'n ormodol ar aralleirio'r erthygl a thueddu i orfanylu a cholli golwg ar y darlun cyflawn. Roedd y goreuon wedi llwyddo i addasu'r cynnwys a chynnig trafodaeth effeithiol a hynny mewn cywair ffurfiol a phriodol. Mae'n bwysig cofio mai defnyddio a chymhwyso'r wybodaeth yw'r nod a hynny er mwyn mynegi barn bersonol. Roedd y mwyafrif yn medru llunio llythyr ffurfiol digon derbyniol gyda pharagraff agoriadol a pharagraff clo effeithiol. Roedd ymgais gan nifer hefyd i liwio ei mynegiant â phriod-ddulliau ac ambell ddihareb a llwyddodd amryw i wneud defnydd da o arddull berswadiol gan fynegi barn ar yr un pryd. O safbwynt gramadeg, rhaid pwysleisio'r angen am gysondeb gydag amserau'r ferf gan osgoi pethau fel yr enghraifft hon *Pan ddarllenais i'r erthygl rydw i'n teimlo'n drist*. Yn olaf, gan mai mynegi barn yw hanfod y dasg hon, rhaid gwybod yn hollol sut mae defnyddio'r cymal enwol.

Diffygion yn y cynnwys, gwendidau mynegiant a gwallau iaith oedd yn nodweddu gwaith yr ymgeiswyr gwannaf.

CA6 Defnyddio'r iaith a Gwerthfawrogi Barddoniaeth (Arholiad Ysgrifenedig)

Ystadegau Uned

Mae'r ystadegau canlynol yn cynnwys yr holl ymgeiswyr a gofrestrwyd am yr uned, pa un ai ydynt wedi 'cyfnewid' am ddyfarniad UG neu peidio. Tynnir sylw canolfannau at y ffaith y dylid ystyried yr ystadegau a restrir o fewn cyd-destun y papur hwn yn unig ac yn ddiamau bydd gwahaniaethau'n digwydd o flwyddyn i flwyddyn a hefyd rhwng pynciau yn yr un flwyddyn.

Uned	Cofrestrriad	Marc Mwyaf	Marc Cymedrig
CA6	573	140	62.0

Ystodau Graddau

A	99 – 140
B	85 – 98
C	71 – 84
D	58 – 70
E	44 – 57

D.S. Marciau crai ac nid marciau unffurf yw'r marciau a roddir uchod.

Cwestiwn 1(i)

Cafwyd nifer o atebion digon boddhaol gan nifer. Ar y llaw arall roedd gwallau iaith syml yn gostwng sawl un. Roedd rhai yn methu dangos **yn eglur** ystyr a defnydd y ffurfiau berfol.

Er enghraifft:

- (a) Siarada i
- (ch) Diolchais
- (dd) Bydd e'n deall

Mae gofyn i ymgeiswyr gynnwys adferfau i ddangos dealltwriaeth lawn o amser y ferf

Ychydig iawn oedd yn deall *cynhaliwyd* a sawl un yn hepgor y frawddeg yn llwyr! Roedd rhai yn dewis anwybyddu geiriad y cwestiwn am *un frawddeg*. Gwelwyd problem atalnodi yn gyffredinol.

Cwestiwn 1(ii)

Eto eleni roedd y frawddeg *Rydw i'n meddwl mai ... yn trechu nifer*. Cafwyd anhawster wrth offen y frawddeg *Pe bawn i'n gallu*.

Cwestiwn 2

Roedd y goreuon yn llwyddo i ennill marciau uchel yn y cwestiwn hwn. Serch hynny, gwnaethpwyd camgymeriadau elfennol gyda therfyniad y berfau a'r arddodiaid.

Diffygion:

- (i) Peidio dyblu'r *n* yn *Gofynnwch / Gofynna*
- (ii) Diffyg treiglo *tŷ>dŷ*
- (iii) Ansicrwydd wrth ddefnyddio *fy mod i*
- (iv) Nifer heb wybod ystyr *yn aml*
- (v) Ansicrwydd wrth ddefnyddio *Mae'n ddrwg gen i / Mae'n flin 'da fi*
- (vi) Cymysgu person y rhagenw *Wyt ti'n ... ar eich ... / Ydych chi'n ... ar dy*
- (vii) Hepgor yr arddodiad *Diolchwch / a iddo fo /fe*
- (viii) Y ffurfiau *Ar gau; ar ddydd Sul*
- (ix) Yn gywir ar y cyfan }
(x) }

Cwestiwn 3

Yr un broblem sydd yn codi'n flynyddol – ymgeiswyr yn colli ugain marc cymharol hawdd oherwydd nad ydynt yn deall gofynion y cwestiwn. Fel y gellir disgwyl 3(iv) oedd yr un mwyaf anodd, sef,

Ydyn nhw'n deall mai / taw ...'

Cwestiwn 4

Rhaid canmol gwaith y goreuon. Cafwyd gwaith eithriadol o dda ganddynt o ran cynnwys manwl, gwybodaeth gadarn o'r gerdd ac iaith raenus a chywir.

(a) Cynnwys

Roedd llawer o'r atebion yn rhy gyffredinol ac roedd diffyg gwybodaeth drylwyr o'r gerdd yn rhwystro llawer rhag ennill marciau da. Disgwylid cael esboniad llawn o'r wythawd gan nodi'r hyn a wnâi i'r bardd anobeithio ynghylch cyflwr y wlad. Yna disgwylid cael esboniad o'r trawsnewidiad dramatig a geir yn agwedd y bardd yn y chwechawd. Roedd yr ymgeiswyr gorau'n medru aralleirio'r cynnwys yn fanwl a thrylwyr ac yn medru ychwanegu tystiolaeth yn gyson trwy ddyfynnu'n bwrpasol.

(b) Arddull

- Rhyfedd i nifer gamddarllen y cwestiwn hwn gan dybio y disgwylid iddynt drafod arddull y gerdd *Hon*.
- Roedd y goreuon yn dangos parodrwydd i ymdrin â'r technegau yn drefnus gan ddyfynnu o'r gerdd mewn modd pwrpasol ac addas. Medrent enwi'r mesur a thrafod ei hanfodion yn fedrus. Trafodwyd nodweddion arddull yn dda gan nodi esiamplau o'r delweddau a ddefnyddiai'r bardd i bortreadu Cymru gan fanylu ynglŷn â'r defnydd o gyffelybiaethau a chyflythreniad a geir yn y soned.
- Gwelwyd lleiafrif yn methu â gwahaniaethu rhwng y cynnwys a'r arddull. Yn gyffredinol ni chafwyd digon o wybodaeth benodol, bwrpasol am y technegau barddol.

(c) **Synoptig**

- Roedd safon yr atebion yn amrywio'n fawr. Y gwendid pennaf oedd bod yr ymgeiswyr weithiau'n ceisio cwmpasu gormod ac oherwydd hynny yn methu â thrafod y brif thema'n ddigon trylwyr. Roedd y rhai a grybwyllai ormod o destunau'n syrthio i'r fagl hon, yn ogystal â'r rheini a geisiai drafod gormod o is-themâu.
- Roedd yr atebion gorau'n canolbwyntio ar brif thema'r soned, sef, cariad tuag at y wlad a dyletswydd i'w gwarchod. Canolbwyntiodd y rheini ar gerddi penodol o'r fanyleb sy'n ymwneud â'r thema hon yn ogystal â'r ddrama a'r ffilm. Llwyddwyd i drafod y testunau hynny gan groesgyfeirio'n ddeheuig iawn at elfennau sy'n gyffredin neu'n wahanol ynddynt.

Cymraeg Ail Iaith

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd 2008

Prif Arholwyr: *Trefor Lewis B.A., M.Phil, Dewi Lewis B.A.*

Y TASGAU LLAFAR

Y GWAITH CWRS LLAFAR (Y Cwrs Llawn a'r Cwrs Byr)

Y Cyflwyniad Unigol

Unwaith eto, cafwyd dau brif gategori yma (gweler adroddiadau blaenorol)

- (a) Cyflwyniad sgyrsiol gyda'r athro/athrawes yn cyfrannu'n achlysurol drwy gydol y 'sgwrs'. Gyda'r math yma o gyflwyniad gall cyfraniad/ymyrraeth yr athro/athrawes fod yn allweddol er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ateb gofynion y cynllun marcio e.e. yn defnyddio ystod o gystrawennau Cymraeg, amserau'r ferf, ymadroddion ac ati. Gyda'r goreuon dim ond ambell gwestiwn a/neu sylwadaeth sydd ei angen, ond rhaid holi'r gweiniaid yn llawer mwy cyson er mwyn sicrhau eu bod yn dangos eu hunain ar eu gorau.
- (b) Cyflwyniad megis araith heb gyfraniad o gwbl gan yr athro neu'r athrawes, a'r araith, gan amlaf, wedi eu dysgu ar gof. Mae yna beryglon amlwg yma (gweler adroddiad 2005.) Ydy'r ymgeiswyr yn cael eu hymestyn yn ddigonol fel eu bod yn ateb gofynion y cynllun marcio? Unwaith eto cafwyd rhai areithiau ar gof oedd yn gyfangwbl ddilys ac yn ateb yr holl ofynion. Ar y llaw arall cafwyd areithiau diddorol a bywiog gan ymgeiswyr da ond lle ni ddefnyddiwyd ond yr amser presennol yn unig – disgwylir mwy nag hynny, hyd yn oed gan yr goreuon yn yr Haen Sylfaenol.

Y math o gyflwyniad yng nghategori (a) gafwyd gan y mwyafrif. Cafwyd nifer fawr o gyflwyniadau hyderus ac uchelgeisiol. Yn yr Haen Sylfaenol dewisodd y mwyafrif themâu cyfarwydd megis 'ffrindiau', 'operau sebon', 'profiad gwaith', 'hobïau', 'rhaglenni teledu', 'byd y ffilmiau' ac ati gyda'r ymgeiswyr yn siarad yn dda amdanynt. Yn yr Haen Uwch cafwyd cyflwyniadau ardderchog ar destunau megis 'Bwyta'n iach', 'Y di-gartre', 'Cyffuriau', 'Yr amgylchedd', 'Problemau pobl ifanc', ac eraill yn trafod llyfrau fel 'Dingo' a 'Madlen', neu ffilm fel 'Tân ar y Comin', (gan baratoi'r ymgeiswyr am yr Uwchgyfrannol, mae'n amlwg).

Nid oes llawer o resymau dros fod yn or-feirniadol ond dyma rhai o'r prif wendidau – y gwendidau arferol:

- Roedd rhai o'r cyflwyniadau'n rhy fyr – llai na munud mewn rhai achosion.
- Roedd eraill yn rhy hir – mae 3 – 5 munud yn llawn digon.
- Roedd rhai disgyblion disglair yn gor-ddibynnu ar gwestiynau'r athro/athrawes.
- Roedd rhai athrawon heb holi digon er mwyn creu cyflwyniadau mwy naturiol ac, yn bwysicach, i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefel arbennig nhw.

- Roedd rhai o'r 'areithiau' oedd wedi eu dysgu ar gof yn swnio'n annaturiol iawn gan roi'r argraff nad oedd yr ymgeiswyr yn deall popeth roeddent yn ei ddweud.

Wedi dweud hynny, roedd llawer mwy o rinweddau nag o ffaeleddau. Yn yr Haen Uwch cafwyd nifer fawr o gyflwyniadau gwych gyda'r ymgeiswyr yn barod iawn i gyflwyno gwybodaeth ddiddorol am amrywiaeth enfawr o bynciau yn ymestyn o diddordebau unigol a'r ardal i ddiwyddiadau a phrofiadau personol. Siaradwyd yn hyderus, yn rhwydd ac yn naturiol gyda'r athrawon yn ymuno'n achlysurol – symbyliad nawr ac yn y man i barhau'r cyflwyniad neu i newid cyfeiriad. Dibynwyd ar y cof weithiau, wrth gwrs, ond gwna siaradwyr mamiaith hyn yn eu cyflwyniadau. Yn wir, basai llawer o siaradwyr brodorol wedi bod yn falch iawn o rai o'r cyflwyniadau yma. Yn yr un modd, roedd nifer o'r cyflwyniadau Sylfaenol yn ganmoladwy iawn.

Y Sgwrs Sefyllfa

Braf medru dweud i'r mwyafrif o athrawon ddilyn y canllawiau a roddwyd dros y blynyddoedd diwethaf, ac ar y cyfan, cyflawnwyd y dasg yma'n gyson well eleni.

Yn anffodus, anwybyddwyd y canllawiau gan rai athrawon. Yn lle gadael i'r ymgeiswyr arwain a gwirfoddoli gwybodaeth (fel ydy'r bwriad) yr hyn gafwyd mewn rhai canolfannau oedd cyfres o gwestiynau wedi eu paratoi ymlaen llaw – yr un sefyllfa a'r un cwestiynau i bob ymgeisydd, weithiau yn yr Uwch a'r Sylfaenol, oedd yn esgor ar yr un atebion gan yr ymgeiswyr i gyd, heb fawr o wahaniaeth rhwng atebion ymgeisydd ar radd A, dyweder, ag ymgeisydd ar D. Yn yr achosion yma gwastraffwyd prif fantais gwaith cwrs sef y cyfle i osod tasgau gwahaniaethol.

Dyma'r math o gyfarwyddiadau roddwyd mewn o leiaf un ganolfan:

1. Dwedwch eich bod yn mynd i Ysgol Gyfun *****
2. Dwedwch eich bod chi'n hoffi chwaraeon.
3. Dwedwch eich bod chi'n chwarae i dîm rygbi Ysgol Pum Seren.
4. Dwedwch eich bod chi'n astudio Cymraeg lefel A.
5. Dwedwch eich bod chi'n gweithio ar y penwythnos yn siop sglodion Pum Seren. a.y.y.b.

Roedd union ymatebion camau'r dasg wedi eu rhoi i'r disgyblion, a chafwyd yr un atebion, gyda mân amrywiaethau, gan pob ymgeisydd. Roed pob un e.e. yn chwarae rygbi i dîm yr ysgol, pob un yn astudio Cymraeg i lefel A, pob un yn gweithio ar y penwythnos yn siop sglodion Pum Seren (mae rhaid ei bod yn siop sglodion anferth). Yn waeth fyth rhoddwyd y cyfarwyddiadau'n Saesneg hefyd e.e.

1. Say that go to Ysgol Gyfun *****
2. Say that you like sport a.y.y.b.

Dim ond cyfieithu oedd rhaid i'r ymgeisydd wneud. Dylid rhoi cyfarwyddiadau llawer mwy cyffredinol i orfodi'r ymgeiswyr i feddwl cyn ateb ac i roi atebion mwy creadigol:

- e.e. Cyflwynwch/disgrifiwch eich hunan;
Siaradwch am eich diddordebau;
Hoffech chi ofyn cwestiynau a.y.y.b.

Dyma rhai o'r prif wendidau eraill:

- Rhai o'r sefyllfaoedd yn rhy anodd i'r Haen Sylfaenol, eraill yn rhy hawdd i'r Haen Uwch.
- Methiant ar ran yr athrawon i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ymateb i holl bwyntiau'r cynnwys. Cafwyd e.e. ymgeisydd yn neidio o bwynt (iv) i bwynt (vii). Pan ddigwydd hyn dylai'r athro/athrawes arwain yn ôl at y pwyntiau a adawyd allan. Gnwaeth rhai athrawon hyn yn gelfydd iawn.
- Weithiau teimlid bod yr ymgeiswyr wedi dysgu sgript, gyda phob disgybl yn ateb yr un cwestiynau gyda'r un atebion (yn ymdebygu i'r enghraifft uchod).
- Ni dderbyniwyd copi o'r sefyllfa bob tro. Roedd hyn yn gwneud tasg y safonwr bron yn amhosibl weithiau.

Yma eto, lleiafrif oedd yn euog o'r ffaelecteddau uchod. Roedd y rhinweddau yn llawer mwy lluosog na'r ffaelecteddau.

Yr Ymateb Llafar i Ddarllen

Dyma'r dasg a achosodd y mwyaf o broblemau yn y gorffennol ond braf gallu dweud bod y safon wedi gwella mewn nifer sylweddol o ganolfannau, er bod y modd y dehonglwyd y dasg yn dal i amrywio o ganolfan i ganolfan.

Mae'n deg cydnabod i'r mwyafrif gymryd sylw o'r ddau brif bwynt a wnaethpwyd yn yr hyfforddiant mewn swydd ac mewn adroddiadau blaenorol:

- (i) pwysigrwydd lefel darlennedd y deunydd darllen,
- (ii) bod rhaid dangos dealltwriaeth o'r hyn a ddarllenwyd.

Fel yn y gorffennol, roedd y deunyddiau darllen yn amrywio'n fawr o ganolfan i ganolfan, rhai wedi darllen nofelau fel 'Madlen', 'Ydy fe?', 'Eli Brown' ac ati, eraill wedi astudio cerddi fel 'Deg o Elyrch Gwynion', 'Sbwriel' a 'Dydd Sadwrn', neu ddarnau allan o 'IAW!', 'Lingo', 'Y Deunyddiau Enghreifftiol' a hen bapurau arholiad Darllen a Gwranddo.

Defnyddiwyd deunyddiau gwahaniaethol yn effeithiol iawn gan y mwyafrif o ganolfannau, ond mae lleiafrif yn dal i ddefnyddio'r un deunydd ar gyfer pob disgybl – o A* i G. Tueddai'r deunyddiau yma i fod yn iawn ar gyfer y disgyblion canolig ond heb fod yn ddigon heriol i gyfiawnhau graddau A ac A* i'r goreuon ar y naill law, ac yn llawer rhy uchelgeisiol i'r gweiniaid ar y llaw arall.

Roedd natur yr holi yn gwahaniaethu'n fawr hefyd. Llwyddodd llawer i drafod yr hyn a ddarllenwyd yn ddeallus iawn gan fynegi safbwynt personol a dangos dealltwriaeth o'r cynnwys ar yr un pryd.

Mewn rhai canolfannau dim ond cyfres o gwestiynau a gafwyd gydag atebion byr, parotaid na roddai gyfle o gwbl i ddangos barn bersonol na llwyr ddealltwriaeth o'r hyn ddarllenwyd. Weithiau, mewn achosion lle rhoddwyd yr un deunydd darllen i bawb, nid oedd fawr wahaniaeth rhwng perfformiadau'r ymgeiswyr hynny a ddylai, yn ôl y ganolfan, fod wedi cael A*, a'r rhai hynny a dargedwyd ar gyfer graddau F a G. Cymerer yr enghraifft yma o un ganolfan:

Gwaith cwrs Cymraeg: Dwedwch gymaint a phosibl am Glyn mewn brawddegau llawn.
Say as much as you can about Glyn in full sentences.
Finish by giving your opinion about him.

Enw: Glyn Thomas Wise
Oed: 19
Dyddiad geni: 01/09/1988
Geni yn: Bangor
Byw yn: Blaenau Ffestiniog
Gwaith: Big Brother, cyflwynydd Radio Cymru a 'The Big Welsh Challenge'
Teulu: mam (Ann), dad (William), dwy chwaer (Annette ac Alison)
Hobiau: gwyllo'r teledu, canu
Hoffi: Big Brother, mynd i barti
Casau: anifeiliaid

Cafwyd manylion tebyg am Duffy, Charlotte Church a Rhydian Roberts – digon diddorol a deniadol iawn, ond **a oes digon o ddeunydd darllen yma i brofi dealltwriaeth ymgeisydd yn yr Haen Uwch?** Basai'r deunydd fel y mae yn addas ar gyfer ymgeiswyr F/G yn unig. Ond i goroni popeth, rhoddwyd copi Saesneg o'r union dasg hefyd, felly doedd dim angen darllen (a deall) y Gymraeg o gwbl. Hefyd roedd rhan olaf y dasg (Finish by giving your opinion about him – uniaith Saesneg) ddim yn gofyn am ddealltwriaeth o'r deunydd darllen o gwbl, fel y dylai'r elfen o fynegi barn.

Dyna'r dasg a roddwyd i bawb. Ymddiheuir am yr ailadrodd ond mae'n bwysig cofio mai prif fantais gwaith cwrs ydy'r rhyddid i ddewis tasgau gwahaniaethol sy'n addas ar gyfer yr unigolyn. Ni wnaethpwyd hyn gan bawb.

Un enghraifft yn unig oedd yr uchod – cafwyd ymdrechion clodwiw gan y mwyafrif o ganolfannau.

Derbyniwyd samplau y mwyafrif o ganolfannau yn brydlon gyda phopeth yn daclus ac yn drefnus. Yn anffodus, nid oedd pob canolfan mor brydlon ag eraill – am amryw resymau, rhai yn fwy dilys nag eraill. Cofier fod gan y safonwyr allanol derfynau amser i'w dilyn hefyd. Mewn un ganolfan cyrhaeddodd y sampl Cwrs Llawn yn brydlon ond bu bron ym amhosibl cael y gwaith gweinyddol ar gyfer y Cwrs Byr – oherwydd rhyw anghydfod mewnol. Nid dyma'r lle i leisio barn am hynny ond mae'n drueni mawr pan fod canlyniadau ymgeiswyr yn cael eu rhoi yn y fantol dan y fath amgylchiadau. Yr ymgeiswyr yw'r flaenoriaeth.

YR ARHOLIAD LLAFAR – Y Dasg Pâr/Grŵp

Fel gydag adroddiad y llynedd, ni fwriedir mynd i fanyldeb mawr wrth ymdrin â'r dasg yma oherwydd mae pawb, ag eithrio rhyw ychydig, yn hen gyfarwydd â'r arholiad erbyn hyn.

Ar y cyfan, dilynwyd y cyfarwyddiadau i'r dim gan y mwyafrif o ganolfannau – roeddent wedi danfon y sampl berthnasol ac wedi sicrhau bod yr ymgeiswyr wedi trafod yn ôl gofynion y dasg. Ni ddaeth yr un o'r safonwyr ar draws problemau dybryd. Fodd bynnag, mae ambell ganolfan yn dal i anwybyddu'r cyfarwyddiadau a nodir yn y llyfryn a ddanfonir i bob canolfan. Ymddiheuir am ail-adrodd rhai o'r prif ffaelecteddau blynyddol yma unwaith eto:

- heb roi cyfenwau'r ymgeiswyr yn gyntaf.
- heb restrir ymgeiswyr yn nhrefn teilyngdod.
- heb nodi marc y ganolfan ar y ffurflen farciau.
- heb nodi enw/rhif y ganolfan ar y casetiau.
- heb ddanfon y casetiau a'r ffurflenni ar wahan (rhwygir llawer o ffurflenni wrth agor pecynnau'r casetiau).
- heb enwi pob aelod o bob pâr/grŵp ar y ffurflen farciau.
- heb nodi'r aelod a dargedir ar y ffurflen farciau.
- heb ddanfon y sampl y gofynnwyd amdani (llai, ond gan amlaf, mwy nag oedd ei angen).

- heb ddirwyn y tapiau yn ôl i'r dechrau cyn eu danfon.
- heb ofyn i'r ymgeiswyr gyflwyno eu hunain ar ddechrau'r recordiad fel bod y safonwr yn adnabod y gwahanol leisiau.
- heb sicrhau bod y recordiadau'n ddigon eglur – weithiau roedd llais yr athro/athrawes yn llawer mwy clir na'r ymgeiswyr.

Siaradwyd am amrywiaeth eang o destunau – gosodiadau, y lluniau a'r symbyliadau fideo bron i gyd. Yn Haen Uwch y Cwrs Llawn efallai mai'r pynciau mwyaf poblogaidd oedd Amser Hamdden (y fideo), Chwaraeon (y lluniau), Operau Sebon (y gosodiad) a Bwyta'n iach a Chadw'n Heini (y lluniau). Yn y Cwrs Byr profodd Canu Pop, y Teulu, Byd y Ffilmiau a Gwyliau i fod yn destunau poblogaidd, ond syndod oedd sylwi i 'Cyfrifiaduron' gael ei anwybyddu bron yn gyfangwbl. Cafwyd nifer o ganolfannau'n defnyddio tasgau gwahanol ar gyfer pob un o'r parau/grwpiau (yn y sylfaenol a'r uwch), felly'n defnyddio 5 testun ar gyfer 5 pâr/grŵp. Ni ellir cyhuddo'r canolfannau yma o ganolbwyntio ar un neu ddau destun – roedd hi'n amlwg eu bod wedi astudio yr holl ystod o bynciau, mwy neu lai.

Roedd canolfannau eraill, fodd bynnag, yn defnyddio'r un dasg ar gyfer pawb oedd yn awgrymu'n gryf weithiau eu bod wedi canolbwyntio ar destun y dasg honno. Weithiau, yn yr achosion yma, roedd sgysiau pob grŵp yn dilyn yr un patrwm, gan ddefnyddio'r un eirfa, yr un ymadroddion a.y.y.b. oedd yn awgrymu gor-baratoi. Yr unig wahaniaeth weithiau oedd bod y goreuon yn ynganu, yn pwysleisio ac yn seibannu'n well. Weithiau teimlid eu bod wedi dysgu (neu geisio dysgu) sgrïpt. Ond rhaid pwysleisio mai lleiafrif a wna'i hyn. Cafwyd enghreifftiau di-ri' o barau a grwpiau'n trafod yn ddeheuig gan siarad yn rhwydd a naturiol heb ddibynnu'n ormodol ar y cof o gwbl. Cafwyd holi pwrpasol gan athrawon er mwyn hwyluso'r fath sgysiau ac er mwyn sicrhau cyflawni gofynion y dasg a'r cynllun marcio. Roedd y cyd-adweithio rhwng y disgyblion yn ganmoladwy iawn, a chafwyd trafodaethau aeddfed a synhwyrol ynghyd â'r gallu i fynegi barn bendant. Defnyddiwyd ystod eang o amserau'r ferf, o batrymau ieithyddol, ac ati, gyda'r ymgeiswyr yn dangos eu bod yn medru ar iaith glir a chywir ar y lefel uchaf.

Yn yr Haen Sylfaenol y testunau mwyaf poblogaidd oedd 'Rhaglenni Teledu', 'Chwaraeon', 'Hobiau' a 'Byd y Ffilmiau' (Cwrs Llawn a'r Cwrs Byr) er i'r tasgau, bron i gyd, gael eu defnyddio yma eto. Yn y Sylfaenol, mewn llawer o ganolfannau roedd tueddiad i or-ddibynnu ar gwestiynau'r athro/athrawes yn hytrach nag holi ac ateb ei gilydd. Ar y llaw arall, mewn rhai canolfannau doedd dim digon o holi gan yr athro/athrawes pan oedd ei angen, ac roedd hyn yn tueddu i lesteirio tipyn ar naturioldeb y sgwrs. Roedd hyn yn wir am yr Haen Uwch weithiau hefyd. **Mae'n bwysig cofio ei bod hi'n ddyletswydd ar yr athro/athrawes i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ceisio cyflawni holl ofynion y dasg gan eu harwain, os oes angen, drwy 4 cam yr Haen Sylfaenol a 3 cham yr Haen Uwch. Hefyd dylid ceisio sicrhau eu bod yn ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefelau arbennig nhw.**

Dyma ail-adrodd rhai o'r ffaeleddau blynyddol:

- Roedd rhai o'r sgysiau'n rhy fyr i gyfiawnhau'r marciau a roddwyd gan y ganolfan. Mae angen tipyn mwy na munud neu ddwy i deilyngu'r graddau uchaf.
- Cafwyd trafod amherthnasol gan rai grwpiau yn arbennig pan oeddent yn crwydro'n ormodol oddi ar y testunau dan sylw i siarad am y testun (efallai'r unig destun) roeddent wedi ei baratoi.
- Collwyd marciau gan rhai ymgeiswyr drwy fethu cyflawni holl gamau'r dasg (gweler uchod).

- Mewn lleiafrif o ganolfannau ni chafwyd digon o holi (weithiau dim holi o gwbl) gan yr athro/athrawes er mwyn creu sgwrs mwy naturiol, neu er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cyflawni holl ofynion y dasg (fel yn y pwynt blaenorol) er mwyn ateb y gofynion a'r cynllun marcio.
- Tueddiad i ailadrodd yr un patrwm ieithyddol (e.e. rydw i'n hoffi/rydw i eisiau) heb unrhyw amrywiaeth o gwbl mewn ambell ganolfan. Ni ddisgwylir llawer mwy na hyn gyda'r gweiniaid, ond gyda goreuon yr Haen Sylfaenol hyd yn oed, disgwylir amrediad o amserau'r ferf ac amrywiaeth o batrymau brawddegol ac ati.
- Gorddibynnu ar y cof weithiau (roedd hyn yn wir am yr Haen Uwch efallai yn fwy na'r Sylfaenol).

Ar wahân i'r gwendidau uchod mewn lleiafrif o ganolfannau, roedd safon y dasg pâr/grŵp yn dda iawn eleni eto. Roedd hi'n bleser o'r mwyaf cael gwranddo ar ddisgyblion o bob cwr o Gymru, yn arbennig yr ardaloedd lle yr unig le y mae'r ymgeiswyr yn clywed yr iaith yw'r gwersi Cymraeg, yn siarad y Gymraeg cystal – tystiolaeth unwaith eto o waith caled yr athrawon a'r disgyblion yn gyffredinol. Diolch i bawb.

YR ARHOLIADAU GWRANDO A DEALL

Ar y cyfan roedd canlyniadau'r Haen Sylfaenol a'r Haen Uwch, yn y Cwrs Llawn a'r Cwrs Byr i'll dau, ychydig yn well na chanlyniadau 2007.

Y Cwrs Llawn

Haen Sylfaenol C.1

Cafodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr farciau uchel yn y cwestiwn yma gyda llawer ohonynt yn ennill marciau llawn. Y gosodiad achosodd y broblem fwyaf oedd 'Rydw i eisiau hedfan o gwmpas y Byd'. Cafodd lleiafrif bach 'daearyddiaeth' yn anghywir, eraill yn meddwl bod Llun/Mawrth/Mercher ar y penwythnos ac mae ychydig bach yn dal i gymysgu rhwng yr 'i' a'r 'wedi' wrth ddweud yr amser.

Haen Sylfaenol C.2

Cafwyd ymatebion boddhaol iawn i'r cwestiwn yma hefyd – y sgwrs rhwng Iwan a Mair – gyda nifer fawr yn ennill marciau llawn mwy neu lai. Yr eitem achosodd y broblem fwyaf oedd rhif 6. (O'r swyddfa?), yn debygol am fod dim byd wedi ei ysgrifennu ar y tocynnau, y dewis cywir. Yn ôl rhai roedd Dydd Nadolig ym mis Awst, eraill yn meddwl fod Mair yn helpu ar y stondin chwaraeon (efallai am fod sôn am yr athrawon chwaraeon yn trefnu gêmiau yn y gampfa) ac ambell un yn meddwl bod y gêmiau yn yr ystafell fathemateg.

Haen Sylfaenol C.3/Haen Uwch C.1

Fel y gellid disgwyl gyda'r cwestiwn gorgyffwrdd, perfformiodd ymgeiswyr yr Haen Uwch dipyn yn well na'r rhai'r Haen Sylfaenol. Ar ôl dweud hynny, gwnaeth yr Haen Sylfaenol yn well nag yn ddiweddar yn y ddau grid gyd rhai o'r ymgeiswyr yma'n ennill marciau uchel iawn a'r mwyafrif yn gwneud rhyw fath o ymdrech. Ni chafwyd cynifer ag arfer heb wneud ymgais o gwbl. Ar y cyfan, roedd y marciau iaith yn isel yn y Sylfaenol (cofier mai profi dealltwriaeth yw bwriad yr arholiad yma). Wrth reswm, gwnaeth ymgeiswyr yr Haen Uwch dipyn yn well yn yr elfen yma, ond roedd y marciau iaith yn amrywio'n fawr o ganolfan i ganolfan – marciau llawn gan rai ond eraill ddim llawer gwell na'r Sylfaenol.

Gydag ymgeiswyr y Sylfaenol, rhannau o'r atebion a gafwyd yn aml e.e. bioleg yn lle adran Bioleg, Cymraeg yn lle cryno ddisgiau Cymraeg, cacennau yn lle cacennau Nadolig a.y.y.b. (3A). Hepgor y ferf oedd gwendid mwyaf yn 3B e.e. (siopa) yn yr arcêds/ yng Nghaerdydd, (mynd) i Stadiwm y Mileniwm/i'r Eisteddfod/i'r siopau/i McDonalds, (torheulo/mynd) ar y traeth a.y.y.b.

Haen Uwch C.2

Ni chafwyd problemau cyson gyda'r cwestiwn yma eleni eto – heblaw am yr eitem olaf – y tywydd (Bydd hi'n oer ac yn wlyb drwy'r penwythnos yn enwedig yn y gogledd). Y goreuon, bron yn ddieithriad, gafodd yr elfen hon yn gywir. Awgryma hyn yn gryf fod y cwestiwn yma yn ei ffurf bresennol yn profi gwir ddealltwriaeth – yn wahanol i'r cwestiwn fel yr ymddangosa ym mhapurau'r cwrs peilot.

Y dair eitem arall i achosi problemau i nifer oedd:

2. Tywysog Cymru yn dod i Ogledd Cymru y bore 'ma.
6. Pris prynu cartref newydd yn mynd lawr o'r diwedd – ond dim ond tuag un cant.
8. Problemau teithio o faes awyr Caerdydd. Streic am wythnos gyfan.

Cwestiwn llwyddiannus ar y cyfan. Mae'n amlwg bod yr ymgeiswyr yn ymarfer y math yma o gwestiwn yn rheolaidd.

Haen Uwch C.3

Cafwyd ymatebion llawer gwell i'r cwestiwn yma eleni er mai gogleddwr oedd testun y cyfweiliad unwaith eto. Yn sicr, ni chafwyd yr un problemau gydag acen Gareth Roberts ag acen Robin McBryde y llynedd. Cafwyd llawer o farciau llawn, neu bron llawn, mewn sawl canolfan. O safbwynt dangos dealltwriaeth (a dyna bwrpas y papur yma) perfformiodd yr ymgeiswyr cystal, os nad gwell nag ymgeiswyr blynyddoedd diweddar, ond collwyd marciau gwerthfawr gan nifer am gywirdeb iaith unwaith eto.

Llwyddodd y mwyafrif i gael marciau teilwng iawn yn Adran 1. Fel y disgwyliid cafodd mwyafrif mawr farciau da am gwestiynau 1 a 2. Yn 3b, fodd bynnag, roedd yr atebion yn amrywio gryn dipyn – o 'chwarae dros yr ysgol' yn unig i atebion cynhwysfawr yn sôn am bob tîm i Gareth chwarae drostynt.

Cwestiynau 4 a 5 yn Adran 2 achosodd y problemau mwyaf. Gan nad oedd cwestiwn am ddiddordebau arall Gareth Roberts cafwyd 'Yr Urdd' ac 'actio' fel atebion i gwestiwn 4 (Sut lyfrau mae Gareth yn hoffi?). Yn yr un modd cafwyd 'llyfrau chwaraeon' a 'nofelau cyffrous' fel atebion i 5(a) (Sut raglenni mae Gareth yn hoffi?). Ni chafodd yr ymgeiswyr mwya disglair broblemau yma – o'r safbwynt hwnnw roeddent yn gwestiynau da i wahaniaethu.

Atebwyd Adran 3 yn foddhaol ar y cyfan ond dim ond rhannau o'r atebion roddwyd i 7(b) (Beth oedd yn digwydd yn *Cyfle Byw?*) ac i 9. (Mae Gareth wedi bod yn lwcus iawn wrth gyflwyno *Sgorio* a *Y Clwb Rygbi*. Pam?).

Rhannau o'r atebion roddwyd gan nifer i gwestiynau Adran 4 hefyd e.e. Chwech milltir (Cw. 10), Ffrwythau (Cw.11a), Fan hufen iâ (12). Weithiau mae geiriau unigol yn hollol ddi-ystyr ac, wrth gwrs, mae angen mwy na geiriau unigol i ennill marciau iaith uchel. Mae un ateb i gwestiwn 10 (Sut mae chwarae golff yn cadw Gareth yn heini?) yn aros yn y cof. Yr ateb oedd 'ti'n cerdded ymbwyiti lot wrth chwarae golff'. Oes angen dweud mwy?

Y Cwrs Byr

Fel y soniwyd eisioes, roedd y marciau ychydig yn well na'r llynedd, ac ar yr un pryd yn sylweddol well na'r blynyddoedd blaenorol. Mae mwy a mwy o ymgeiswyr yn sefyll y cwrs yma – trueni mawr gan fod llawer iawn ohonynt yn ddigon galluog i ddisgleirio yn y Cwrs Llawn ac hyd yn oed yn yr Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn y dyfodol. Yn waeth fyth, mae nifer o'r disgyblion galluog yma'n sefyll yr Haen Sylfaenol gan mai dyna'n unig a gynigir iddynt mewn rhai canolfannau. Mae hyn yn fygythiad mawr i ddyfodol y Gymraeg yn ein hysgolion.

Haen Sylfaenol C.1

Roedd perfformiadau yn y cwestiwn yma'n arbennig o dda gyda'r mwyafrif yn ennill marciau llawn, mwy neu lai. Yr unig eiriau i achosi problemau oedd Daearyddiaeth a rasyd ceffylau.

Haen Sylfaenol C.2

Cafwyd canlyniadau boddhaol iawn yma eto – y mwyafrif yn sgorio'n sylweddol gyda llawer, unwaith eto, yn ennill marciau llawn. Fel yn y Cwrs Llawn methodd rhai ddeall fod Mair yn helpu ar y stondin llyfrau, ac eraill wedi methu rhoi cyfrifiaduron yn y dewis olaf.

Haen Sylfaenol C.3/Haen Uwch C.1

Y grid cyntaf yn y Cwrs Llawn oedd hwn, ac er na wnaeth ymgeiswyr y Cwrs Byr cystal, roedd eu hymatebion yn ddigon boddhaol ar y cyfan, yn enwedig yn yr Haen Uwch. Fel y llynedd, syndod oedd gweld i nifer o'r ymgeiswyr Sylfaenol a gafodd farciau uchel (hyd yn oed marciau llawn) yn C.1 a C.2 anwybyddu'r cwestiwn yma. Er i lawer gael y cwestiwn yn anodd, fe lwyddodd nifer i ennill marciau teilwng iawn – hyd yn oed marciau llawn. Rhaid cofio bod llawer o ymgeiswyr galluog iawn yn dilyn y cwrs yma. Trueni na roddir y cyfle i rai ohonynt i ddilyn y Cwrs Llawn.

Haen Uwch C.2

5 o eitemau'r Cwrs Llawn a gafwyd yma ac er i rai gael marciau llawn, cafwyd mwy o broblemau nag yn y cwrs hwnnw. Ni chafwyd llawer o atebion cywir i eitem y tywydd ond cafwyd rhai o'r gweddill yn gywir gan nifer sylweddol.

Haen Uwch C.3

Gwelwer y Cwrs Llawn (Adran 1 ac Adran 2 yn unig).

Gwaith Cwrs – Ysgrifennu a Darllen

Mae'r gwaith cwrs ysgrifennu a darllen yn gwella pob blwyddyn a'r gwendidau o ran gweinyddu yn lleihau o hyd. Mae ffrwyth y cyfarfodydd hyfforddiant mewn swydd i'w gweld yn glir ar gynnwys y gwaith a hefyd ar safon y gweinyddu.

Mae nifer fach o athrawon dibrofiad o hyd yn gosod yr un tasgau ar gyfer yr holl ystod gallu o A* – G, ac o'r herwydd ddim yn gwneud tegwch a'r ddau begwn gallu. Dylid gosod gweithgareddau ar gyfer pedwar carfan wahanol o ran gallu. Yn naturiol gellir cael elfennau sy'n gorgyffwrdd rhwng un garfan a'r llall.

e.e. rhwng carfan 1 a charfan 2.

Gellir meddwl yn fras felly am bedair carfan.

Disgyblion sy'n anelu at raddau.

Carfan 1 A* – top B

Carfan 2 B – C

Carfan 3 Gwaelod C – top E

Carfan 4 E, F – G

Fel y soniwyd y llynedd, mae eisiau i fwy o ysgolion eto edrych ar eu gwaith ysgrifennu ar y cyd-destun Llên a Llun. Ar hyn o bryd cymharol ychydig o ysgolion sy'n defnyddio'r adran Llun fel symbyliad i waith ysgrifennu. Mae safleoedd ardderchog ar y we a gall ysgolion eu defnyddio yn sail i waith ysgrifennu Llên a Llun. Mae gwefannau megis Bandit yn ardderchog ar gyfer canu cyfoes a gellir cael pob math o wybodaeth am y grwpiau a'u cefndir. Gan mai defnyddio'r ffynonellau hyn fel symbyliad bydd yn ymgeiswyr, does dim angen iddynt ddeall pob manylyn o'r wybodaeth sy ar y wefan.

Eto, fel y soniwyd y llynedd, gan fod gemau cyfrifiadurol mor boblogaidd gyda'r ifanc, byddai'n fuddiol i'r goreuon fynd ati i ysgrifennu adolygiad o un o'r gemau diweddaraf. Yn naturiol byddai angen i athrawon roi cymorth i'r disgyblion gyda geiriau arbenigol ac ambell gystrawen ddieithr.

Ymatebion ysgrifenedig i waith Darllen.

Eleni eto llwyddodd y mwyafrif llethol i ymateb yn addas i amrywiaeth eang o ddarnau darllen gan gynnwys cerddi o bob math. Mae athrawon, ar y cyfan yn dod yn fwy hyderus wrth greu tasgau ymateb i ddarllen a gwelir bod grwpiau o ysgolion yn cydweithio er mwyn arbrofi a llunio tasgau darllen diddorol a symbylus. Mae cyfle gwych i athrawon yn y tasgau gwaith cwrs i sicrhau bod eu disgyblion yn cael tasgau diddorol sy'n apelio at eu diddordebau nhw.

Mae'n werth cynnwys y rhestr ganlynol er mwyn i athrawon gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesa.

I godi safonau:

- (i) Mae eisiau i athrawon ymateb yn gadarnhaol i'r tasgau gwaith cwrs, gan baratoi cyrsiau a gwersi symbylus, addas a diddorol.
- (ii) Mae eisiau ystyried paratoi'r disgyblion ar gyfer y sgiliau ysgrifennu a darllen hyn yn CA3.
- (iii) Rhaid rhoi cyfle i'r disgyblion ysgrifennu'n gydlynus er mwyn rhoi marc iaith synhwyrol iddynt yn eu tasgau ymateb i ddarllen yn ysgrifenedig. Nid yw ateb cwestiynau sy'n holi am wybodaeth o'r darn yn ddigonol.
- (iv) Rhaid i'r dasg asesu darllen alluogi'r disgybl i ddangos dealltwriaeth o'r darnau darllen yn y tasgau a gyflawnir. Nid symbyliad yw'r darnau darllen hyn er mwyn cael gwaith ysgrifennu personol neu greadigol.
- (v) Rhaid gosod tasgau gwahaniaethol, er mwyn ymestyn y goreuon a rhoi digon o gynhaliaeth i'r gweiniaid.
- (vi) Rhaid gosod darnau darllen neu waith gwyllo a gwrando sydd o wir ddiddordeb i'r disgyblion. Gall hyn olygu darllen a gwyllo amrywiaeth o ddarnau a dewis y gwaith gorau ar gyfer pob disgybl i'w gynnwys yn ei ffeil waith cwrs.

Darllen ac Ysgrifennu

Cwrs Llawn

Haen Sylfaenol

Cwestiwn 1 (i)

Mae'r cwestiwn hwn yn targedu graddau F a G ac yn ymwneud â thestunau sylfaenol cyfarwydd. Llwyddodd y mwyafrif helaeth, i gael marciau llawn neu 8+ gan ddangos fod ganddynt dealltwriaeth dda o destunau sylfaenol cyfarwydd megis teulu, ysgol, ardal, amser, rhifau ac amser hamdden.

I godi safonau dylai ymgeiswyr

- (i) dalu sylw manwl i'r pedwar dewis cyn rhoi eu tic yn y bocs
- (ii) darllen y darnau fwy nag unwaith cyn dod i gasgliad ynglŷn â pha focs i ddewis.
- (iii) edrych dros eu gwaith ar y diwedd.

Cwestiwn 1 (ii)

Darllen e-bost oedd y dasg yma a disgwylir i'r ymgeiswyr ateb chwe chwestiwn ac yna ysgrifennu e-bost gan ymateb i dri pheth yn yr e-bost gwreiddiol.

Roedd hi'n amlwg o'r atebion bod y mwyafrif llethol o'r ymgeiswyr yn deall yr e-bost syml ac yn gallu cynhyrchu e-bost syml fel ateb. Roedd hi'n amlwg o'r e-bost yn (b) bod athrawon yn hyfforddi eu disgyblion yn sgil arddull e-bost e.e. *Dydd Sadwrn dw i'n siopa a heno edrych ar y teledu. Dw i eisiau mynd i'r cyngerdd – os ti'n talu!*

Does dim rhaid i ymgeiswyr ateb y cwestiynau mewn brawddegau llawn – y wybodaeth yn unig sydd ei hangen e.e. Faint o'r gloch mae rhaglen lolo Williams ar S4C? Ateb – hanner awr wedi wyth.

I godi safonau dylai ymgeiswyr

- (i) sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r geiriau gofynnol syml, megis Faint, Pwy, Ble, Beth, Pryd a Sawl a'u bod yn rhoi ateb synhwyrol i'r geiriau gofynnol hynny e.e mae'n amlwg fod 'Pwy' yn gofyn am enw person a 'faint o'r gloch' yn gofyn am ateb yn ymwneud ag amser.
- (ii) sicrhau eu bod yn gyfarwydd â 'ti' yn ogystal â 'chi' mewn cwestiwn a'u bod yn gallu rhoi ateb syml i gwestiynau creiddiol fel sydd yn yr e-bost.
- (iii) ymarfer y sgil o ymateb i e-bost yng nghyfnod allweddol 3.

Cwestiwn 2

- (i) Ysgrifennu paragraff byr yn cynnwys o leiaf wyth o ffeithiau yw'r dasg yma. Gan fod y cwestiwn yn targedu graddau F a G mae'r cyd destunau yn gyfarwydd a sylfaenol iawn – pethau megis ardal, teulu, nhw eu hunain, amser hamdden, ysgol ayyb. Rhoddir 8 marc am 8 ffaith wedi ei mynegi'n gyfathrebol a 2 farc cywirdeb am ddwy gystrawen cwbl gywir mewn brawddegau. Ar y cyfan, mae'n braf i ddweud bod mwyafrif llethol yr ymgeiswyr yn gallu cyflawni'r dasg yn llwyddiannus.

I godi safonau dylai ymgeiswyr gwan iawn

- (i) ddysgu nifer fechan o frawddegau ar y cof ar destunau megis 'fi fy hun' er mwyn rhoi hyder iddynt i ddechrau ymateb yn llwyddiannus i dasg ysgrifennu.
- (ii) ail ddarllen y paragraffau yn C1 er mwyn atgoffa eu hunain o'r cystrawennau creiddiol sy eu hangen i ymateb yn llwyddiannus i'r dasg ysgrifennu sylfaenol hon.

Cwestiwn 2 (ii)

Mae'r marciau yn yr adran hon yn gwella o flwyddyn i flwyddyn ac mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod athrawon yn paratoi eu disgyblion yn fanwl ar y math yma o ysgrifennu. Mae tystiolaeth o'r sgriptiau bod ymgeiswyr yn cael ei hyfforddi i roi tic wrth ochr y pethau maent wedi cynnwys yn yr e-bost ac mae hynny'n arfer dda. Mae mwy a mwy o ddisgyblion yn defnyddio arddull e-bost ac yn gwneud hynny'n llwyddiannus.

e.e. mynd i'r sinema nos Sadwrn i weld Mamma Mia ar y bws saith o'r gloch.

I godi safonau dylai ymgeiswyr

- (i) ymgyfarwyddo â geirfa cyd destunau megis siopa, parti, triplau ysgol.
- (ii) ymarfer ysgrifennu e-bost at ffrindiau gan ddefnyddio'r cyfrifiaduron yn yr ysgol.

Cwestiwn 3

Cafwyd ymateb da gan yr ymgeiswyr i'r dasg ddarllen hon sy'n targedu graddau D ac E. Mae cyd destun y ddau ddarn yn gyfarwydd i'r ymgeiswyr sef, ysgol, amser hamdden, gwyliau, chwaraeon a'r flwyddyn nesa. Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr ddim yn cymryd yn ganiataol bod y grid yn dilyn yr un drefn â'r darnau darllen. Hefyd yn rhan (ii) dylid pwysleisio bod angen edrych am ddau beth gwahanol rhwng Phil ac Elin ac nid pethau tebyg.

I godi safonau dylai'r ymgeiswyr

- (i) ymgyfarwyddo â'r gair 'gwneud' a'u bod yn naturiol yn edrych am weithred yn yr ateb, hefyd bod 'mynd i ble' yn golygu bod rhaid iddynt edrych am le yn yr ateb.
- (ii) dylai'r ymgeiswyr ymarfer y dasg o ysgrifennu brawddegau syml i ddangos y gwahaniaeth rhwng y ddau gan sicrhau eu bod yn defnyddio'r person cywir. Nid oes angen brawddegau cymhleth yn y rhan hon o'r asesiad.

e.e. mae Elin yn hoffi darllen ac mae Phil yn hoffi merlota.
Aeth Phil ar ei wyliau i Ogledd Cymru ac Elin i Sbaen.

Cwestiwn 4

Mae cyfle yma i ymgeiswyr yr haen sylfaenol ddangos eu bod yn gallu ysgrifennu'n gydlynus ar destunau cyfarwydd iddynt. O ran mynegiant edrychir am gystrawen frawddegol syml ond cywir. Ar y cyfan cafwyd ymateb da i'r cyd destunau ac o'r ymgeiswyr a wnaeth ymdrech i wneud y dasg, ychydig iawn gafodd dan hanner marciau.

I godi safonau dylai'r ymgeiswyr

- (i) sicrhau eu bod yn gallu ysgrifennu brawddegau cywir gan ganolbwyntio ar y gystrawen 'ydy' e.e. Coronation Street ydy fy hoff opera sebon.
- (ii) ymarfer mynegi barn gan ddefnyddio 'achos' a rhesymau syml megis 'achos mae'n ddiddorol, achos mae'n dda, achos mae'n hwyl a.y.y.b.

Cwestiwn 5 (Cwestiwn 1 Uwch)

Cafwyd ymateb rhagorol, gan yr ymgeiswyr uwch, i'r cyfweiliad hwn ag Aled Haydn Jones ac roedd hi'n amlwg fod y cynnwys o ddiddordeb iddynt. Hoffwn dynnu sylw eleni eto at ail hanner yr asesiad. Mae'r geiriad ar y papur yn dweud bod rhaid i'r ymgeiswyr ofyn cwestiynau i gael mwy o wybodaeth am bethau y sonnir amdany'n nhw yn y cyfweiliad. Felly doedd hi ddim yn bosib mynd i mewn i'r arholiad gyda chwestiynau wedi eu paratoi o flaen llaw. Roedd hi'n gwbl amlwg bod y mwyafrif o'r ysgolion wedi paratoi eu disgyblion yn addas gan roi digon o ymarfer iddynt yn y grefft hon. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg hefyd nad oedd rhai disgyblion yn gwybod bod yr elfen hon wedi newid ac o'r herwydd yn aml yn colli chwe marc. Felly dydy cwestiwn fel 'Ydych chi wedi dringo'r Wyddfa?' ddim yn addas o gwbl oherwydd nad oes sôn am ddringo na'r Wyddfa yn y darn.

Ar y llaw arall mae cwestiwn syml fel 'oeddech chi'n hoffi'r ysgol gynradd?' yn gwbl addas ac yn haeddu 2 farc.

I godi safonau dylai ymgeiswyr gwan

- (i) edrych ar y cyfweiliad estynedig yma fesul cwestiwn yn hytrach na phanicio o weld llond tudalen o ysgrifennu.
- (ii) ymarfer y grefft o ymateb yn syml i'r ail ran. Gellid gwneud ymarfer yn y dosbarth lle mae disgyblion yn asesu gwaith ei gilydd gan ddweud a yw'r cwestiynau'n ddilys.

Cwestiwn 6 (Cwestiwn 2 Uwch)

Fel arfer mae ymgeiswyr yr haen sylfaenol yn ymateb yn well i dasg ysgrifennu paragraffau nag i ysgrifennu darnau cydlynus gweddol estynedig a gwiredwyd hyn yn y dasg hon eleni. Y cyd destunau 'cyfrifiaduron' a 'ffonau symudol' oedd yn peri trafferth i ymgeiswyr yr haen sylfaenol, tra roedd y rhain yn apelio at yr ymgeiswyr uwch. Llwyddodd y goreuon o'r ddwy haen i ysgrifennu'n ddiddorol yn yr amser gorffennol i ymateb i 'gwyliau'r ysgol llynedd'.

I godi safonau dylai'r ymgeiswyr gwan

- (i) ymarfer ysgrifennu'n syml yn yr amser gorffennol gan ganolbwyntio ar gystrawennau megis 'es i', 'gwelais i'.
- (ii) ymarfer ysgrifennu'n syml am bethau fel 'y tywydd'.
- (iii) dylai ymgeiswyr canolig eu gallu ganolbwyntio ar y gystrawen 'ydy' gan sicrhau nad ydynt yn defnyddio 'mae' ac 'ydy' yn yr un frawddeg e.e. camgymeriad cyson yw 'Mae fy hoff fwyd ydy salad'.

Cwestiwn 3 (Uwch)

Ar y cyfan cafwyd ymateb da i'r ddwy erthygl yma lle mae pobl ifanc yn mynegi barn ar destunau cyfoes. Dylid canolbwyntio ar y testun 'uwch' yn y maes llafur a sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gallu dethol y wybodaeth berthnasol i ateb y cwestiwn. Un bai amlwg yng ngwaith yr ymgeiswyr gradd C oedd eu bod yn copïo popeth ar bwnc ac yn ei ysgrifennu i gyd yn yr ateb h.y. heb ddethol y wybodaeth yn berthnasol. Canlyniad hyn oedd eu bod yn cael dim marc o gwbl am yr elfen honno.

Yn yr ail ran mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn ymateb trwy roi eu syniadau eu hunain a chynhyrchu gwaith ysgrifenedig cywir gan sicrhau bod y cymal achos yn cael ei ddefnyddio'n gywir.

I godi safonau dylai ymgeiswyr

- (i) adolygu'r adrannau sy'n ymwneud â mynegi barn yn drylwyr – adrannau megis pwysau cyfoedion, hawliau pobl ifanc ac anifeiliaid, yr amgylchedd lleol gan gynnwys sbwriel a fandaliaeth a.y.y.b.
- (ii) dylai ymgeiswyr hefyd ddarllen y gosodiadau yn rhan (i) yn fanwl gan sylwi ar eiriau y gosodiad.
- (iii) sicrhau eu bod yn cynnwys rheswm personol yn rhan (ii) e.e. rydw i'n cytuno â Rhodri bod gormod o bwysau ar ddisgyblion blwyddun 11 achos yn fy ysgol i mae pob pwnc eisiau gwaith cwrs i mewn yr un amser a does neb yn cynllunio o flaen llaw.

Cwestiwn 4

Mae'r cwestiwn hwn ar fynegi barn yn cydbblethu'n hyfryd gyda'r gwaith grŵp llafar. Felly mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn delio gyda'r testunau hyn yn llafar ac ysgrifenedig yn yr un cyfnod. Mae'r eirfa arbenigol sy ei hangen yn addas ar gyfer ysgrifennu a siarad.

Y testunau mwyaf poblogaidd oedd yr 'alcohol a chyffuriau' a 'cyfrifiadur a'i rinweddau a'i broblemau'. Doedd 'gwisg ysgol' ddim yn boblogaidd iawn. Cafwyd gwaith gwirioneddol dda gan y goreuon; roedd ganddynt farn glir a syniadau pendant ynghyd â rhesymau a thystiolaeth gynhwysfawr i ategu'r farn honno. Hefyd roedd y goreuon yn ysgrifennu'n gywir gan ddefnyddio'r cymalau rheswm yn greffus.

I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig

- (i) ganolbwyntio ar ddefnyddio cystrawen sylfaenol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir. Mae cynnwys y llythyrau hyn bron bob amser yn ddiddorol a pherthnasol – yn aml y gystrawen sy'n ddiffygiol.

Cwestiwn 5

Llwyddodd y goreuon i ymateb yn dda i'r erthygl uchelgeisiol hon am Glyn Wise. Roedd y cyd-destun yn sicr yn apelio atynt a llwyddodd y mwyafrif llethol i ymateb yn llwyddiannus i'r pum cwestiwn cyntaf. Cafwyd ymatebion gwirioneddol dda gan y goreuon i ran (ii), ymatebion cynhwysfawr ynghyd â chywirdeb a chystrawen ardderchog.

e.e. Rydw i'n meddwl bod uchelgais Glyn yn dda achos mae'n gylfe i ddangos ar y teledu beth mae e'n gallu gwneud. Rydw i'n cytuno dylai dysgu Cymraeg fod yn hwyl achos dw i'n hoffi gwrandio ar gerddoriaeth Cymraeg a gwyllo rhaglenni fel Sgorio ar y teledu. Mae tynnu eich dillad ac ymddangos ar y teledu'n noeth yn sbwriel, rydw i'n anghytuno gyda Glyn. Mae bod yn enwog yn wych achos rydych chi'n cael llawer o arian a dillad ffasiynol.

I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig eu gallu

- (i) sicrhau eu bod yn dyfalbarhau a gwneud ymdrech i ateb pob cwestiwn.
- (ii) gwneud ymdrech i ysgrifennu'n syml ar y rhannau mwyaf hawdd yn (ii) gan sicrhau eu bod yn cyfeirio at y darn darllen.

Cwestiwn 6

Y testun mwyaf poblogaidd o ddigon oedd (a) sef 'Y cyfleusterau hoffwn i weld ar gyfer pobl ifanc yn fy ardal'. Gan y goreuon cafwyd ymdriniaeth uchelgeisiol ynghyd â chynllun synhwyrol gydag un paragraff yn arwain yn naturiol at y nesaf. Roedd ganddynt afael cadarn ar gystrawen a geirfa weddol eang oedd yn caniatáu iddynt fod yn uchelgeisiol iawn ar adegau.

I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig

- (i) ganolbwyntio ar gywirdeb a chystrawen gwreiddiol y frawddeg
- (ii) osgoi'r camgymeriadau amlwg fel: 'Mae ddim, rydw i'n eisiau, rhy gormod, roedd nhw, dylwn anifeiliaid achos mae nhw ddim'.

Cwrs Byr

Eleni eto roedd mwy o ymgeiswyr Cwrs Byr nag erioed o'r blaen ond yn anffodus hefyd roedd llawer mwy o ymgeiswyr wnaeth fawr o ymdrech yn y papurau Ysgrifennu a Darllen Sylfaenol. Roedd canran digon sylweddol, tua 9% heb geisio ymateb i unrhyw gwestiwn ysgrifennu ar y papur o gwbl ac ond wedi cwblhau Cwestiwn 1 yn y Darllen.

Cwestiwn 1

Fel yn y Cwrs Llawn, cafwyd ymatebion da gan y mwyafrif o'r ymgeiswyr a'r elfen achosodd fwyaf o drafferth oedd 'Lucy a Lowri'n gwneud' a 'mam a dad yn gwneud prynhawn dydd Sul'.

Cafwyd ymateb da iawn i ran (ii) ar y cyfan gyda chwestiynau 5, 6 a 7 yn achosi peth trafferth i'r gweiniaid. Mae'n braf dweud bod y mwyafrif llethol wedi ymdrechu i wneud rhan (ii) a bron pawb wedi llwyddo i gael o leiaf 1 marc.

I godi safonau dylai ymgeiswyr

- (i) dalu sylw manwl i'r pedwar dewis cyn rhoi eu tic yn y bocs.
- (ii) darllen y darnau fwy nag unwaith cyn dod i gasgliad ynglŷn â pha focs i ddewis.
- (iii) sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r geiriau gofynnol syml, megis Faint, Pwy, Ble, Beth, Pryd, a Sawl a'u bod yn rhoi ateb synhwyrol i'r geiriau gofynnol hynny, e.e. mae'n amlwg fod 'Pwy' yn gofyn am enw person a 'faint o'r gloch' yn gofyn am ateb yn ymwneud ag amser.
- (iv) gael digon o ymarfer i ymateb i e-bost o wahanol ffynonellau.

Cwestiwn 2

Llwyddodd canran dda i gael 15 neu well o farciau ar y cwestiwn hwn ac roedd hi'n amlwg o'r cynnyrch bod yr ymgeiswyr wedi cael eu paratoi'n dda. Roedd rhan (i) yn rhoi cyfle da i ymgeiswyr ymateb gyda brawddegau oedd wedi eu paratoi o flaen llaw ac felly yn codi eu hyder ar gyfer gweddill y cwestiwn.

I godi safonau dylai ymgeiswyr

- (i) ail ddarllen y deunydd darllen yn C1 er mwyn ymgyfarwyddo â chystrawennau sylfaenol, syml a geir yn y darnau.
- (ii) ddefnyddio'r cystrawennau hyn yn eu gwaith wrth ymateb yn C2.
- (iii) sicrhau eu bod yn ysgrifennu am y tri thestun gan gynnwys 5 ffaith ym mhob un.

Cwestiwn 3 (Cwestiwn 1 Uwch)

Llwyddodd yr ymgeiswyr Uwch i ymateb yn llawn i'r cwestiwn hwn gan ddangos dealltwriaeth gyflawn o'r darn. Cafwyd cwestiynau synhwyrol a chywir gan y goreuon i'r ail ran hefyd.

Hoffwn dynnu sylw at ail hanner yr asesiad. Mae'r geiriad ar y papur yn dweud bod rhaid i'r ymgeiswyr ofyn cwestiynau i gael mwy o wybodaeth am bethau y sonnir amdany'n nhw yn y cyfweiliad. Felly doedd hi ddim yn bosib mynd i mewn i'r arholiad gyda chwestiynnau wedi eu paratoi o flaen llaw. Roedd hi'n gwbl amlwg bod y mwyafrif o'r ysgolion wedi paratoi eu disgyblion yn addas gan roi digon o ymarfer iddynt yn y grefft hon. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg hefyd nad oedd rhai disgyblion yn gyfarwydd â'r dull hwn o asesu darllen ac o'r herwydd yn aml yn colli pedwar marc.

Felly dydy cwestiwn fel:

'Ydych chi'n hoffi Eastenders?' ddim yn addas o gwbl oherwydd nad oes sôn am raglenni teledu yn y darn.

Ar y llaw arall mae cwestiwn syml fel 'Ydy dad yn hoffi gweithio i'r cwmni ffenestri?' yn gwbl addas ac yn haeddu 2 farc.

I godi safonau dylai ymgeiswyr

- (i) ymarfer ymateb mewn grid fel sydd yn y cwestiwn hwn.
- (ii) adolygu geiriau gofynnol megis: Pryd? Gwneud beth? Pam? Sawl?
- (iii) ymarfer yn drwyadl y dull asesu yn yr ail ran.
- (iv) gael disgyblion eraill i farcio eu gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn deall gofynion y dasg.

Cwestiwn 4 (Cwestiwn 2 Uwch)

Ymatebodd canran uchel o ymgeiswyr sylfaenol ac uwch yn eitha llwyddiannus i'r dasg ysgrifennu hon. Trueni bod tua 10% o ymgeiswyr Sylfaenol heb roi cynnig ar y dasg hon o gwbl. O edrych ar eu gwaith yn C2, mae'n amlwg fod ganddynt yr adnoddau ieithyddol i wneud hynny.

I godi safonau dylai ymgeiswyr gwan

- (i) ail ddarllen y darnau darllen yn C1 a C3 er mwyn atgoffa eu hunain o'r cystrawennau sylfaenol a ddefnyddid ganddynt yng nghyfnod allweddol 3 a 4.
- (ii) gadw eu brawddegau'n syml.

Cwestiwn 3 (Uwch)

Ar y cyfan, cafwyd ymatebion da iawn i'r dasg ddarllen hon gan yr ymgeiswyr Uwch. Mae'n amlwg fod llawer o'r ymgeiswyr hyn â chryn fedrusrwydd yn y Gymraeg a gallai llawer ohonynt wneud y cwrs llawn o gael amser dysgu addas yn yr ysgol er mwyn paratoi'r cyd-destunau ychwanegol. Byddai hyn wedyn yn eu galluogi i ystyried dilyn cwrs Lefel A ail iaith yn y chweched dosbarth.

I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig eu gallu

- (i) ymarfer ysgrifennu paragraffau i ymateb i destunau lle mae gofyn iddynt gytuno ac anghytuno.

- (ii) sicrhau eu bod yn adolygu'r testunau sy'n arbennig ar gyfer yr haen uwch e.e. yr amgylchedd, defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal, bwlio a thensiwn rhwng ffrindiau, hwlighaniaeth, cyflogau uchel pobl yn y byd chwaraeon.

Cwestiwn 4 (Uwch)

Cafwyd gwaith gwirioneddol dda gan y goreuon. Roedd eu mynegiant yn hyderus ac ystwyth a gallent ddefnyddio ystod dda o gystrawennau yn gywir ar y cyfan. Roedd eu syniadau'n aeddfed a diddorol ac roedd cynllun da i'r gwaith gorffenedig. Roedd hi'n gwbl amlwg y gallai'r ymgeiswyr hyn ymdopi'n llwyddiannus â'r cwrs llawn.

I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig

- (i) ail ddrafftio eu gwaith yn yr ystafell ddosbarth er mwyn codi safon cywirdeb.
- (ii) osgoi camgymeriadau megis: rydw i ddim yn cytuno, mae bwlian ydy broblem fawr, dydy nhw a.y.y.b.

Dyfarniadau Uwch Estynedig (DUE) 2008

Prif Arholwraig: Enfys Thomas, Ymgynghorydd y Gymraeg, Awdurdod Addysg Wrecsam

Hon yw'r flwyddyn mwyaf siomedig eto! Dim ond un sgript ddaeth i law ac yn anffodus nid oedd gwaith yr ymgeisydd yn cyrraedd safon teilyngdod.

Unwaith eto eleni roedd y dystiolaeth yn yr arholiad CA6 y byddai nifer sylweddol o ymgeiswyr wedi bod o'r calibr cywir ac wedi mwynhau sialens y deunyddiau gwrando a darllen. Roedd naws amserol, ond heriol fel arfer, i gynnwys y papur sef effeithiau rhyfel ar blant a phobl ifanc a'u hymateb hwythau i ryfel. Wrth gwrs, mae cryn dipyn o waith darllen ar y dyddiaduron, y cerddi a'r darn ffeithiol ond nid yw'r disgwyliadau tu hwnt i allu ymgeiswyr Gradd A.

Lle mae safonau yn dda neu'n dda iawn mae ymgeiswyr yn dangos gwreiddioldeb barn, yn cyflwyno dadleuon gwreiddiol ac yn trafod yn dreiddgar. Mae ymgeiswyr sydd yn dod i'r brîg hefyd yn cyfathrebu'n glir ac mae eu defnydd o iaith yn gyfoethog ac yn gywir. Yn aml yr agwedd synoptig (sydd yn gofyn am groesgyfeirio rhwng agweddau o'r pwnc) fydd yn cynnig yr her.

Er mwyn sicrhau teilyngdod eleni roedd disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at effaith y rhyfel ar stâd meddyliol Ann Frank; yr awgrym bod bywydau'r plant drosodd cyn iddynt ddechrau byw yng ngherdd Gwyn Thomas a'r cymysgedd o emosiynau sydd yn y detholiad o 'Blitz' gan Eigra Lewis Roberts. Wrth drafod cân Dafydd Iwan i Victor Jara roedd cyfle i gyfeirio at ddewrder a phenderfyniad y prif gymeriad er iddo gael ei boenydio'n feunyddiol. Roedd cyfle hefyd, ar lefel teilyngdod, i drafod yr awgrym yn y darn ffeithiol mai plant sydd yn dioddef er mai pobl mewn oed sy'n achosi rhyfel.

Yn y sgript a ddaeth i law nid oedd yr arddull yn dangos yr aeddfedrwydd angenrheidiol. Roedd y dadansoddi a'r cymharu'n arwynebol a'r agwedd synoptig yn siomedig iawn. Un croesgyfeirio yn unig a gafwyd - a hynny at Hedd Wyn. Allan o'r 5 darn darllen a gwrando dim ond at 3 ohonynt yr oedd yr ymgeisydd wedi cyfeirio.

Wrth drafod ffurf, iaith ac arddull unrhyw 3 o'r deunyddiau roedd cyfle i drafod addasrwydd ffurf dyddiadur Ann Frank a 'Blitz'; ffurf sgrysiol y gerdd ac arddull uniongyrchol y darn ffeithiol. Nid oedd digon o dystiolaeth bod yr ymgeisydd yn gyfarwydd â'r termau priodol ar gyfer trin a thrafod y technegau a ddefnyddir gan y beirdd a'r awduron.

Yn flynyddol, mae ADRAN B yn gyfle i ymgeiswyr ddangos eu gallu i ysgrifennu'n greadigol gan ymdrin â chywair, ffurf a chynulleidfa yn sensitif. Ymgeiswyr sydd yn mabwysiadu arddull briodol ac yn arddangos gafael ar y Gymraeg trwy ddefnyddio iaith gyfoethog a meistrolaeth ar ramadeg a chystarwen naturiol yr iaith sydd yn dod i'r brîg.

Eleni roedd y dewis rhwng araith, stori fer ac ymson. Nid yw'r gwaith a ddaeth i law yn dangos nodweddiad araith nag ymson ac nid yw'r stori'n gorffen gyda'r geiriau 'Y cyfan wn i yw fy mod i'n dyheu am rhywbeth'.

Oherwydd hyn nid yw'r hyn a ysgrifenydd yn ateb gofynion y cwestiwn ac felly mae'r marc ar gyfer yr adran yn isel iawn.

Felly, yr un yw'r apêl eto eleni i ganolfannau annog mwy o'u myfyrwyr i sefyll yr arholiad DUE ail iaith. Yn ystod y cyfnod y mae'r arholiad wedi bod mewn bodolaeth gwnaed cais i ddewis pynciau cyfoes – rhai a fyddai, gobeithio, yn apelio at y gynulleidfa dan sylw. Mae papur arholiad 2009 yn barod. Beth amdani?



WJEC
245 Western Avenue
Cardiff CF5 2YX
Tel No 029 2026 5000
Fax 029 2057 5994
E-mail: exams@wjec.co.uk
website: www.wjec.co.uk/exams.html